# Hunaniaith:
## dewisiadau ar gyfer y dyfodol

Adolygiad a baratowyd gan

**IAITH: y ganolfan cynllunio iaith**

ar ran

**Cyngor Gwynedd**

**Awst 2020**

25 mlynedd yn arloesi
yn y maes cynllunio iaith
25 years leading the way
in language planning

# Cynnwys


**Tud.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.0** | **Gofyniad** | **3** |
| **2.0** | **Methodoleg** | **4** |
| **3.0** | **Cefndir a chyd-destun** | **6** |
| 3.1 | Sefydlu Hunaniaith a'i ddatblygiad | 6 |
| 3.2 | Strwythurau | 9 |
| 3.3 | Newidiadau yn y cyd-destun ers 2009 | 12 |
| **4.0** | **Materion allweddol** | **13** |
| 4.1 | Swyddogaeth Hunaniaith | 15 |
| 4.2 | Blaenoriaethau gweithredol | 17 |
| 4.3 | Atebolrwydd, llywodraethiant a statws | 18 |
| 4.4 | Ymateb i ddaearyddiaeth a demograffeg Gwynedd | 20 |
| 4.5 | Cyllid ac adnoddau | 23 |
| 4.6 | Proffil cyhoeddus ac enw | 25 |
| **5.0** | **Dewisiadau** | **27** |
| 5.1 | Cwestiynau allweddol | 27 |
| 5.2 | Dewisiadau posibl | 28 |
| 5.2.1 | Swyddogaeth | 28 |
| 5.2.2 | Statws a chyfansoddiad | 28 |
| 5.2.3 | Manteision ac anfanteision | 30 |
| 5.2.4 | Strwythurau | 33 |
| **6.0** | **Casgliadau ac argymhellion** | **36** |
| 6.1 | Casgliadau | 36 |
| 6.2 | Argymhellion | 37 |
| | **Atodiad A:** Cwestiynau ymchwil allweddol | 39 |
| | **Atodiad B:** Manteision ac anfanteision sefydlu cwmni cyfyngedig trwy warant ac elusen gofrestredig | 42 |
| | **Atodiad C:** Strwythur posibl ar gyfer Hunaniaith i'r dyfodol | 44 |

## 1.0 Gofyniad

Comisiynwyd *IAITH: y ganolfan cynllunio iaith* i gynnal adolygiad o strwythurau a gweithgaredd Hunaniaith, gyda golwg ar gyflwyno dewisiadau i sylw'r Bwrdd Strategol ac eraill ynghylch cyfeiriad strwythurol a gweithredol Hunaniaith i'r dyfodol, ynghyd â'i statws corfforaethol.

Yn benodol gosodwyd tair tasg allweddol:

- *"Ystyried beth yw'r opsiynau posib ar gyfer strwythur Menter Iaith yng Ngwynedd i'r dyfodol...*
- *Ystyried lle dylid targedu ymyrraeth/adnoddau prin gan Fenter Iaith yng Ngwynedd er mwyn cael yr effaith mwyaf... o ystyried bod sefyllfa y Gymraeg yn amrywio ar draws y sir...*
- *Ystyried beth ddylai'r Fenter Iaith ei wneud er mwyn cael yr effaith mwyaf ar y nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn yr adnoddau sydd ar gael, tra hefyd yn sicrhau nad yw'n llesteirio gwaith cyrff eraill".*

Gofynnwyd i IAITH hefyd gynnig dadansoddiad o'r dewisiadau ac ystyried priodoldeb yr enw, Hunaniaith.

## 2.0 Methodoleg

Mewn ymgynghoriad gyda swyddogion arweiniol y Cyngor cynhaliwyd yr adolygiad drwy'r camau canlynol:

- Cytuno ar nod, sgôp a ffocws y gwaith gyda'r swyddogion perthnasol.
- Cynnal ymchwil pen-desg, gan gyfarwyddo â'r ddogfennaeth berthnasol.
- Llunio set o gwestiynau allweddol a fyddai'n arwain yr adolygiad.
- Adnabod unigolion allweddol i'w holi.
- Cynnal cyfweliadau lled-strwythurol gyda'r unigolion perthnasol.
- Didoli a dadansoddi'r ymatebion.
- Llunio adroddiad drafft i sylw'r swyddogion arweiniol.
- Cyflwyno adroddiad terfynol i sylw'r Cyngor.

Rydyn ni'n deall mai cam cychwynnol yw'r ymarferiad hwn a'r bwriad yw casglu barn a gwybodaeth gan unigolion allweddol sy'n ymwneud yn uniongyrchol â rheolaeth a gweithrediad Hunaniaith – cynghorwyr, staff a phartneriaid allweddol – gyda'r bwriad o gynhyrchu dogfen a fydd yn ysgogi trafodaeth fewnol a allai ddeillio ar ymgynghoriad ehangach maes o law.

Yr unigolion a holwyd oedd:

- Cyng. Dafydd Iwan, Cadeirydd Grŵp Strategol Hunaniaith
- Cyng. Dyfrig Siencyn, Arweinydd Cyngor Gwynedd
- Cyng. Nia Jeffreys, Arweinydd Portffolio'r Gymraeg, Cyngor Gwynedd
- Cyng. Menna Baines, Menter Iaith Bangor
- Dilwyn Owen Williams, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd
- Vera Jones, Adran Democratiaeth a'r Gymraeg, Cyngor Gwynedd
- Llywela Haf Owain, Adran Democratiaeth a'r Gymraeg, Cyngor Gwynedd
- Debbie Ann Jones Williams, Adran Addysg, Cyngor Gwynedd
- Gwenllïan Mair Williams, Ymgynghorydd Iaith, Cyngor Gwynedd
- Ifan Llywelyn Jones, Hunaniaith
- Bet Huws, Hunaniaith
- Dylan Bryn Roberts, Hunaniaith (Menter Iaith Bangor)
- Anthony Caradog Evans, Hunaniaith (Menter Iaith Bangor)
- Sali Wyn Islwyn, Iddon Edwards a Fiona Marston, Uned y Gymraeg yn y Gymuned, Llywodraeth Cymru.
- Iwan Hywel, Mentrau Iaith Cymru.

Mae cyfraniadau unigol yr unigolion uchod yn gyfrinachol. Cyflwynir argraff gyfansawdd o'u sylwadau isod, gan amlygu gwahaniaeth barn fel bo hynny'n briodol a pherthnasol.

Cymerwyd i ystyriaeth gwybodaeth a gyflwynwyd i ni mewn nifer o ddogfennau perthnasol:

- Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-17
- Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023
- Rhaglen Waith Gychwynnol, Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023
- *Cymraeg 2050: Strategaeth y Gymraeg* (2016)
- Popdy, Canolfan Hybu'r Gymraeg, Bangor – adroddiad cau i Lywodraeth Cymru (2018)
- Menter Iaith Bangor, Cynllun Busnes 2016-21

- Menter Iaith Bangor, Adroddiad y Cadeirydd 2018-2019
- Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2019-21, Llywodraeth Cymru
- Adroddiadau gweithredol ac ariannol amrywiol a luniwyd at sylw rheolwyr a chyllidwyr
- Cofnodion pwyllgorau Hunaniaith

Ar sail y dystiolaeth uchod amlygwyd y themâu a drafodir yn adran 4.0 Materion Allweddol isod.

Cydnabyddwn mai mater i eraill yw penderfynu cyfeiriad taith Hunaniaith i'r dyfodol. Fodd bynnag, ar gais y comisiynwyr, cyflwynir rhai argymhellion ac awgrymiadau a allai fod yn fan cychwyn ar gyfer y penderfyniadau hynny.

# 3.0 Cefndir a chyd-destun

## 3.1 Sefydlu Hunaniaith a'i ddatblygiad

Sefydlwyd Hunaniaith fel uned weithredol o fewn Uned Hyrwyddo'r Gymraeg, Cyngor Gwynedd, yn 2009. Cyn hynny roedd Menter Iaith Gwynedd yn gweithredu fel prosiect a reolwyd gan gwmni CYMAD o 2006.

Ar sail y canfyddiad cyffredinol bod hyfywedd cymunedol y Gymraeg yng Ngwynedd yn gadarnach na mewn ardaloedd eraill o Gymru, ynghyd â bod cefnogaeth Cyngor Gwynedd (sy'n defnyddio'r Gymraeg fel iaith weinyddol) hefyd yn gadarn, mentrodd y cyllidwyr gwreiddiol, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, a'r Cyngor Sir i sefydlu model newydd arbrofol o fenter iaith. Mi fyddai'r model newydd yma yn gweithredu o fewn strwythur y Cyngor ac yn ysgogi datblygiadau ymysg rhwydweithiau a strwythurau'r sector cyhoeddus o fewn y sir. Tra bod y mwyafrif o fentrau iaith Cymru yn canolbwyntio ar weithredu o fewn cymunedau lleol, yn ysgogi datblygiadau ar lawr gwlad a darparu gwasanaethau cyfrwng Cymraeg i unigolion a grwpiau, gosodwyd swyddogaeth mwy strategol i Hunaniaith a hynny ar lwyfan y sir gyfan.

Bwriad gwreiddiol y fenter, yn ôl Strategaeth Iaith Sirol Hunaniaith 2010-2013 oedd:

- *"Gosod cyfeiriad strategol i gynllunio ieithyddol yng Ngwynedd.*
- *Cydlynu ac ychwanegu gwerth i waith partneriaid er mwyn manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r iaith Gymraeg.*
- *Datblygu, sbarduno a chychwyn prosiectau arloesol newydd er mwyn hyrwyddo'r iaith Gymraeg.*
- *Ynghyd â chynnal a gweithredu nifer o brosiectau'n uniongyrchol, neu ar y cyd gydag adrannau, sefydliadau neu bartneriaethau eraill".*

Roedd cyhoeddi strategaeth iaith sirol yn ei hun yn ddatblygiad cymharol newydd yn 2010.[1] Ar ei sail, gwnaed gwaith arloesol yn y cyfnod cynnar hwnnw drwy dynnu ynghyd cyrff cyhoeddus a sefydliadau amlwg yng Ngwynedd i ganolbwyntio ar faterion perthnasol i gynllunio iaith. Sefydlwyd blaengareddau megis yr Academi Sgiliau a anelodd at godi hyder rheolwyr sefydliadau cyhoeddus y sir yn eu sgiliau Cymraeg a'u defnydd ohonynt. Bu Hunaniaith hefyd yn sbardun i sefydliadau'r sir ddwysau eu hymdrechion er lles y Gymraeg, yn unigol ac ar y cyd, ac ymateb i anghenion gwasanaeth siaradwyr Cymraeg.

Cydweithiwyd yn greadigol yn 'fewnol' gydag adrannau'r Cyngor ei hun – y gwasanaeth ieuenctid, canolfannau hamdden ac eraill. Penllanw'r cydweithio 'mewnol' hynny i lawer fu datblygu Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd a gyhoeddwyd yn 2014 ac sydd bellach ar fin cael ei fabwysiadu'n genedlaethol.

Ochr yn ochr â'r gwaith strategol ac ymestynnol yma bu Hunaniaith hefyd yn cydweithio'n gynyddol gyda chymunedau lleol. Defnyddiwyd y pecyn gwaith *Gweithredu'n Lleol*[2] i hybu perchnogaeth leol ar gynllunio iaith ac o ganlyniad ysgogwyd nifer o brosiectau lleol. At hynny, hyrwyddwyd gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd mewn cyd-destunau lleol; cydweithiwyd gydag unigolion a

---

[1] Cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin Strategaeth Iaith Sirol thematig yn gyson ers 2001 – ond prin fu'r enghreifftiau ers hynny.

[2] *Gweithredu'n Lleol: fframwaith ar gyfer hwyluso cynllunio iaith micro ymysg cymdogaethau Cymraeg,* Bwrdd yr Iaith Gymraeg (2012). Cyhoeddwyd argraffiadau diweddarach gan Lywodraeth Cymru.

grwpiau ar lefel gymunedol i ddatblygu digwyddiadau a gwyliau Cymraeg o'r newydd; ac fe ysgogwyd nifer o brosiectau ar y cyd ar draws y sir.

Noder, yng nghyfnod cynnar Hunaniaith, bod Bwrdd yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Cymru hefyd yn cyflogi nifer o swyddogion i weithio mewn nifer o Ardaloedd Gweithredu Iaith o fewn Gwynedd, e.e. Pwllheli/Porthmadog a Dyffryn Nantlle.

Wrth gyhoeddi Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-17 gweler bod y swyddogaeth ddeublyg hon o weithredu'n strategol ar lefel sir ac yn lleol mewn cymunedau unigol bellach yn cael ei chydnabod:

> *"Bwriedir cyflawni prif elfennau'r Strategaeth hon mewn cydweithrediad agos â rhai cymunedau, a thrwy weithio'n strategol er mwyn prif-ffrydio'r Gymraeg a chynllunio ieithyddol fel rhan greiddiol o gynlluniau, strategaethau, rhaglenni, polisïau, prosiectau a gweithgareddau a ddarperir ac a gynhelir eisoes yng Ngwynedd", (tud 12).*[3]

Ac eto,

> *"O ystyried ei leoliad dylanwadol yng Nghyngor Gwynedd a'i rwydweithiau aml-asiantaethol, gall hunan**iaith** (sic) weithio mewn partneriaeth ar draws ystod eang o adrannau a sefydliadau, sectorau a chymunedau i gyflawni gofynion y Strategaeth hon", (tud 12).*[4]

Cynigiwyd nifer o grwpiau thematig fel strwythur gweithredol ar gyfer y strategaeth, â'r cyfan wedi ei gydlynu gan Grŵp Rheoli hunan**iaith** (sic). Mae'r strategaeth ei hun yn dilyn patrwm pum colofn Iaith Pawb (Llywodraeth Cymru, 2009). Ar ddiwedd cyfnod gweithredol y Strategaeth hon gwelwyd un o swyddi Hunaniaith, swydd a oedd yn bennaf ynghlwm â Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd, yn cael ei symud i'r Adran Addysg ac yna, yn ddiweddarach, i weithlu GWE, y consortiwm addysg rhanbarthol. Torrwyd grant Hunaniaith yn gyfatebol o ganlyniad.

Yn gyfredol, mae Hunaniaith yn gweithredu dan fantell Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd 2018-2023. Mae'r Cynllun Hybu yn eistedd o fewn y fframwaith polisi a gynigir gan Gynllun Llesiant Gwynedd a Môn 2018 – cynllun statudol a hyrwyddir gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Mae'r Cynllun hwnnw yn nodi gwarchod a hyrwyddo'r Gymraeg yn un o brif flaenoriaethau llesiant Gwynedd.

> *"Mae'r Bwrdd yn deall pwysigrwydd y Gymraeg o ran gwead cymdeithasol a hunaniaeth ddiwylliannol yr ardal. Mae angen i ni sicrhau bod trigolion yn gallu ac yn dewis byw eu bywydau trwy gyfrwng y Gymraeg a'u bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau a gweithgareddau cymunedol yn y Gymraeg. **Mae hwn felly yn flaenoriaeth ar gyfer cyd-weithio i'r dyfodol**". (tud. 10)* [Mae'r pwyslais yn y gwreiddiol].[5]

Dogfen a chynllun a berchnogir gan Gyngor Gwynedd dan ofynion y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg yw'r Cynllun Hybu:

> *"Gyda'r Cyngor yn arwain y strategaeth newydd yn hytrach na Hunaniaith, y fenter iaith yng Ngwynedd, bydd y Strategaeth hefyd yn adlewyrchu ymrwymiadau ehangach y*

[3] http://connect-gwynedd.public-i.tv/document/Strategaeth_Iaith_Gwynedd_2014_17___Cyflwyniad_pptx.pdf
[4] Ibid.
[5] https://www.llesiantgwyneddamon.org/Uploads/Pages/Documents/3-5-3-94-2-Cynllun-Llesiant-Gwynedd-a-Mon.pdf

*Cyngor yng nghyswllt y Gymraeg, mewn sawl maes megis addysg, cynllunio a gwasanaethau cymdeithasol a gofal ac yn ategu'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun y Cyngor a Chynllun Llesiant Gwynedd a Môn. Bydd gweithrediad a llwyddiant y Strategaeth yn ddibynnol ar gydweithio rhwng nifer o bartneriaid, yn gyrff cyhoeddus ac yn grwpiau cymunedol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r rhwystrau amrywiol sydd yn wynebu'r Gymraeg ar draws y sir" (tud 1).*[6]

O fewn y Cynllun Hybu'r Gymraeg presennol, er bod cyfeiriad at Hunaniaith fel un o'r partneriaid gweithredol ym mhob adran o Raglen Waith Gychwynnol 2018-23 y cynllun, cyfyngir gweithgaredd penodol Hunaniaith yn y ddogfen arweiniol i Maes Blaenoriaeth 4: Iaith y Gymuned.

*"Mae'r fenter iaith yng Ngwynedd, Hunaniaith, yn rhan o'r Cyngor, ac felly bydd eu gwaith nhw a'u partneriaid yn gwbl hanfodol er mwyn cyflawni'r weledigaeth yn y maes hwn. Bydd Hunaniaith yn parhau i ddatblygu cynlluniau a fydd yn rhoi cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn naturiol mewn cyd-destunau newydd ac amrywiol yn eu cymunedau", (tud 17).*[7]

At hynny, yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er bod yna gydnabyddiaeth o sefyllfa ieithyddol arbennig Gwynedd a chefndir sefydlu Hunaniaith fel uned strategol o fewn Cyngor Gwynedd, mae'r brif ffynhonnell incwm – Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2019-21, Llywodraeth Cymru – wedi canolbwyntio'n bennaf ar ariannu gweithgaredd sy'n hyrwyddo a chefnogi'r defnydd cymdeithasol o Gymraeg yn unol â Thema 2 y strategaeth iaith genedlaethol, Cymraeg 2050, 'Cynyddu'r Defnydd o Gymraeg'.[8] Mae pwyslais y cynllun grant hwnnw ar weithredu ar lawr gwlad i hyrwyddo a hwyluso cynnydd yn y defnydd cymdeithasol a wneir o'r Gymraeg. Mae deiliaid grant yn adrodd ar eu gweithgaredd i Lywodraeth Cymru ar sail dangosyddion perfformiad a thargedau meintiol sy'n gysylltiedig â digwyddiadau a gweithgareddau yn hytrach nag ar sail canlyniadau strategol, bydded rheiny'n feintiol neu'n ansoddol.

Mae swyddogaeth Hunaniaith o fewn y Cynllun Hybu felly'n adleisio dibenion y cynllun grant sy'n darparu'r rhan helaethaf o gyllideb Hunaniaith. Atgyfnerthir y ffocws cymunedol hwnnw gan raglen waith gyfredol Hunaniaith a'r blaenoriaethau gweithredol a nodir dan amodau'r grant presennol, sef:

- dylanwadu ar iaith y teulu,
- cryfhau'r cyswllt rhwng ysgolion ar gymuned,
- cynnig gweithgareddau i'r grŵp oedran 16-24 oed, a
- datblygu dealltwriaeth o arferion ieithyddol trigolion Gwynedd.

Mae'r rhaglen waith ddiweddar hefyd wedi cynnwys gweithio gyda siaradwyr newydd, gan gynnig cyfleoedd iddyn nhw ddefnyddio eu Cymraeg tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ac amodau'r cynllun grant, mae Hunaniaith, yn y blynyddoedd diweddar, hefyd wedi bod yn cydweithio'n agos gyda Menter Iaith Bangor. Sefydlwyd Menter Iaith Bangor yn 2013 fel grŵp gwirfoddol a oedd eisiau crynhoi a dwysau'r ymdrechion i gynnal a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y ddinas. Yn 2016, derbyniwyd grant o £300,000 gan Lywodraeth Cymru, dan y cynllun Bwrw 'Mlaen, i sefydlu *Popdy* fel canolfan i weithgareddau

[6] https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Dewud-eich-dweud/Cynllun-Hybur-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf
[7] Ibod.
[8] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/cymraeg-2050-strategaeth-y-gymraeg-v1-1.pdf

a mudiadau Cymraeg ym Mangor. Cyfeiriwyd 30% o grant Hunaniaith ers hynny i gynnal swyddog(ion) datblygu sy'n gweithio'n benodol mewn cydweithrediad â Menter Iaith Bangor. Ar hyn o bryd cyflogir un swyddog datblygu llawn amser a chynorthwyydd datblygu rhan-amser yn benodol i weithio gyda Menter Iaith Bangor.

Mae'n bwysig nodi, yn ogystal â dyrannu grant i Hunaniaith (a Menter Iaith Bangor), mae Is-adran y Gymraeg, Llywodraeth Cymru, hefyd yn cyllido dau brosiect arall o fewn ffiniau Gwynedd – Dyffryn Nantlle 20/20 a phrosiect Gwallgofiaid ym Mlaenau Ffestiniog ers dros ddegawd.

## 3.2 Strwythurau

3.2.1 Staffio

Mae corff staff Hunaniaith a'u dyletswyddau wedi amrywio dros y ddegawd diwethaf. Ar ei anterth cyflogwyd 5 aelod staff (cyfwerth â 4.5 aelod o staff llawn amser). Ers 2015 a gyda lleihad yn y grant a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru – o £224,362 yn 2015-16 i £166,890 yn 2020-21 – mae'r staffio uniongyrchol dan y grant bellach yn cyfateb i 3.5 aelod o staff amser llawn.

- Swyddog Datblygu – sy'n canolbwyntio ar Ddwyfor yn ogystal â dal dyletswyddau sirol.
- Swyddog Datblygu – sy'n canolbwyntio ar Feirionnydd yn ogystal â dal dyletswyddau sirol.
- Swyddog Datblygu – sydd wedi ei neilltuo'n benodol i Fenter Iaith Bangor.
- Cynorthwyydd Datblygu – sydd wedi ei neilltuo'n benodol i Fenter Iaith Bangor.

At hynny, mae Cyngor Gwynedd hefyd yn cyflogi Ymgynghorydd Iaith sy'n gweithio yn yr Uned Democratiaeth ac Iaith sy'n arwain ar faterion polisi iaith, y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg a phartneriaethau statudol. Hefyd, cyflogir swyddog yn yr Adran Addysg sy'n dwyn cyfrifoldeb am hyrwyddo'r Gymraeg mewn addysg ynghyd â dyletswyddau eraill. Mae'r ddau ddeiliad swydd yn gyn-aelodau o dîm staff Hunaniaith ac yn cydweithio â'r tîm cyfredol ar brosiectau perthnasol.

Rheolir Hunaniaith gan Uwch Ymgynghorydd o'r Uned Democratiaeth ac Iaith. Neilltuir 30% o'i swydd ar gyfer y gorchwyl hwnnw. Mae'r costau hynny, ynghyd â defnydd swyddfeydd y Cyngor, yn cael eu cynnwys yn y gyllideb fel arian cyfatebol yn erbyn grant craidd Llywodraeth Cymru.

3.2.2 Atebolrwydd a chefnogaeth


Dros y ddegawd diwethaf mae staff Hunaniaith wedi bod yn atebol i swyddog arweiniol a gyflogir gan Gyngor Gwynedd. Mae'r swyddog hwnnw wedi bod yn gyfrifol am gefnogi a rheoli staff, cyfeiriad strategol Hunaniaith a pherfformiad gweithredol y tîm. Ymddengys bod ychydig o ansefydlogrwydd wedi bod yn y trefniadau hynny am gyfnod o ganlyniad i gyfnodau mamolaeth a secondiadau.

Fel nodwyd uchod, yn gyfredol, o ran rheolaeth a chefnogaeth staff, mae staff Hunaniaith yn atebol i Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu Cyngor Gwynedd, sy'n neilltuo 30% o'i hamser i arolygu gwaith a gweithrediad Hunaniaith. Mae hithau yn ei thro yn atebol i Reolwr Uned democratiaeth ac Iaith Cyngor Gwynedd.

O ran arweiniad strategol, mae'r sefyllfa wedi bod yn newidiol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Cyn 2016, roedd y strwythur atebolrwydd strategol yn cynnwys Grŵp Cyfeiriad Strategol, tri grŵp thematig a grwpiau ardal cymunedol fel a welir yn Ffigwr 1 isod.

<u>Ffigwr 1: Strwythur atebolrwydd Hunaniaith cyn 2017-18</u>




Ad-drefnwyd y strwythur yn 2016-17 gyda'r canlyniad bod swyddogion Hunaniaith yn atebol i chwech grŵp gwahanol i wahanol raddau ac i wahanol ddibenion:

- Panel Cyflawni a Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn
- Grŵp Cyfeiriad Strategol Hunaniaith
- Fforwm Iaith Gwynedd
- Grŵp Gweithleoedd a Gwasanaethau
- Gweithgor y Siarter Iaith
- Menter Iaith Bangor

Adolygwyd y sefyllfa eto erbyn 2019-20, gan symleiddio'r strwythur. Bellach y bwriad yw bod Hunaniaith yn derbyn cyfarwyddyd strategol yn uniongyrchol gan Grŵp Strategol Hunaniaith, gyda swyddogaethau ymgynghorol wedi eu neilltuo i Fforwm Iaith Gwynedd a Bwrdd Cyfarwyddwyr Menter Iaith Bangor. Yn anffodus, fodd bynnag, deallwn nad yw'r Grŵp Strategol hwnnw wedi cyfarfod yn rheolaidd iawn yn y cyfnod diwethaf am amrywiol resymau. Nid yw'r Grwpiau Ardal Cymunedol a nodir yn Ffigwr 1 bellach yn weithredol.

<u>3.3.3 Cyllid</u>

Mae'r tabl isod yn amlinellu symiau'r grant canolog a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru tuag at Hunaniaith ers 2015-16. Mae'r cyllid yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i gyflogi a chynnal tîm o staff, gan sicrhau bod ychydig o arian prosiect ar gael iddyn nhw'n ogystal. Yn ychwanegol at y grant gan Lywodraeth Cymru, mae Cyngor Gwynedd yn cyfrannu 30% o swydd Uwch Ymgynghorydd Iaith a Chraffu – sy'n gweithredu fel rheolwr llinell i dîm Hunaniaith. Fel nodwyd eisoes, defnyddir y cyfraniad hwn, ynghyd â safleoedd gwaith, fel arian cyfatebol yn erbyn grant craidd Llywodraeth Cymru.

Tabl 1: Grant Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg Llywodraeth Cymru i Hunaniaith 2015-2021 a'r patrwm staffio a gynhaliwyd ar ei sail

| Cyfnod | Grant craidd | Arian ychwanegol – Bwrw Mlaen | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| **2015 -2016** | **£194,362** | **£30,000** | **£224,362** |
| | 4 swyddog<br>*(3 swyddog datblygu + 1 Cydlynydd Siarter Iaith)* | Tuag at ariannu ½ swydd gweithle | 4 swyddog llawn amser<br>1 hanner swydd/rhan amser |
| **2016-2017** | **£144,262** | **£50,000** | **£194,262** |
| | 3 swyddog<br>*(2 swyddog datblygu + 1 Cydlynydd Siarter Iaith)* | 1 swydd Swyddog Datblygu Bangor | 4 swydd<br>(+ ½ swydd a gyllidwyd yn fewnol yn cael ei defnyddio i weithredu prosiectau gweithleoedd) |
| **2017-2018** | **£116,890** | **£50,000** | **£166,890** |
| | 2 swyddog datblygu | 1 swyddog datblygu Bangor | 3 swyddog llawn amser |
| **2018-19** | **£166,890** | **-** | **£166,890** |
| | 2 swyddog datblygu.<br>1 swyddog datblygu Bangor | | 3 swyddog llawn amser |
| **2019-2020** | **£166,890** | **-** | **£166,890** |
| | 2 swyddog datblygu.<br>1 swyddog datblygu Bangor | | 3 swyddog llawn amser |
| **2020-2021** | **£166,890** | **-** | **£166,890** |
| | 2 swyddog datblygu.<br>1 swyddog datblygu Bangor (30 awr)<br>1 cymhorthydd datblygu (15 awr) | | 3 swyddog llawn amser |

Nodwyd eisoes bod Hunaniaith wedi profi toriad yn y grant craidd yn 2017 wrth i swydd Cydlynydd Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd gael ei brif-ffrydio o fewn yr Adran Addysg ac i'r Llywodraeth gymryd cyfrifoldeb am y prosiect yn genedlaethol a'i ariannu yn rhanbarthol. O ganlyniad, collwyd y swm o £27,327. Gwelir felly bod Hunaniaith wedi colli £57,472 ac amser 2 swyddog drwy'r newidiadau cyllido uchod.

Noder hefyd fod £50,000 o arian grant craidd Hunaniaith yn cael ei neilltuo'n uniongyrchol ar gyfer Menter Iaith Bangor yn benodol. O ganlyniad, £116,890 o arian y grant sydd ar gael at ddefnydd ardaloedd eraill Gwynedd yn eu cyfanrwydd.

Yn yr hinsawdd economaidd gyfredol, gyda gwasgfa ariannol pellach yn debygol o effeithio ar wariant cyhoeddus o ganlyniad i'r pandemig cyfredol a'r penderfyniad bod y Deyrnas Gyfunol i adael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n annhebygol y gwelir cynnydd sylweddol yn arian grant y Llywodraeth yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Trafodir cyllid ac adnoddau Hunaniaith ymhellach yn Adran 4.5 isod.

### 3.3 Newidiadau yn y cyd-destun ers 2009

Ers sefydlu Hunaniaith yn 2009, bu cryn newid yn nhirwedd polisi cyhoeddus Cymru o ran y Gymraeg a newidiadau yn y tirwedd gweithredol. Rhestrwn isod rhai o‘r prif ddatblygiadau a welwyd yn ystod y ddegawd ddiwethaf:

- Cyhoeddi *Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog* (2009).
- Cyhoeddi Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymru Llywodraeth Cymru (2010).
- Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.
- Dirwyn Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ben a sefydlu swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (2012).
- Cyllid ar gyfer mentrau iaith yn dod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (2012).
- Cyhoeddi *Mwy na geiriau: fframwaith strategol ar gyfer hyrwyddo’r Gymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol* (2012 a 2016).
- Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg yn derbyn statws statudol (2013).
- Rhyddhau canlyniadau Cyfrifiad 2011 (2014).
- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Cyhoeddi Safonau mewn perthynas â’r Gymraeg (2015).
- Sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (2016).
- Cyhoeddi *Cymru 2050: Strategaeth y Gymraeg* (2016).
- Datblygu Mentrau Iaith Cymru – fel fforwm a ffynhonnell cefnogaeth gynyddol i fentrau iaith.

Canlyniad y newidiadau hyn, o edrych ar y sefyllfa’n genedlaethol, yw bod y swyddogaethau ‘strategol’ gwreiddiol a nodwyd ar gyfer Hunaniaith bellach wedi eu prif-ffrydio i ddyletswyddau cyffredinol nifer o awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a’u mecanweithiau partneriaethol.

Yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 a’r Safonau mewn perthynas â’r Gymraeg (2015), mabwysiadwyd y ddyletswydd i sicrhau dyfodol ffyniannus i’r Gymraeg gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ar draws Cymru ac mae’r gofyniad ar awdurdodau lleol i weithredu Cynlluniau Hybu’r Gymraeg hefyd wedi golygu cynnydd yng nghyfrifoldebau cynghorau unedol yn y cyswllt hwnnw.

Ymddengys mai’r datblygiadau uchod, ynghyd â thuedd y brif ffynhonnell incwm (Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg 2019-21, Llywodraeth Cymru) i ganolbwyntio ar hyrwyddo’r defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg ymysg cymunedau lleol yw gwraidd y tensiwn sylfaenol sy’n wynebu Hunaniaith heddiw.

## 4.0 Materion allweddol

Cyn nodi rhai materion allweddol a ddaeth i'n sylw yn ystod cyfnod ymchwil maes yr ymarferiad hwn, mae'n werth nodi rhai canfyddiadau ac argraffiadau cyffredinol.

Yn bennaf un, rhaid nodi bod yna gefnogaeth eang a chadarn ymhlith y cyfranogwyr i Hunaniaith a'r gwaith sydd wedi ei gyflawni ers ei sefydlu. Mynegwyd gwerthfawrogiad cyffredinol o ansawdd, cyflawniadau ac ymroddiad aelodau o staff Hunaniaith ar hyd y daith. Cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol hefyd o ymrwymiad Cyngor Gwynedd i gynyddu statws y Gymraeg yn y sir a'r defnydd ohoni, ynghyd ag awydd ac ymrwymiad y Cyngor i sicrhau ac atgyfnerthu hyfywedd y Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd.

Holwyd ynghylch yr hyn a welwyd fel llwyddiannau Hunaniaith ar draws y blynyddoedd. Holwyd hefyd ynghylch unrhyw rwystrau a brofwyd neu agweddau sy'n teilyngu sylw pellach. Yn ddadlennol, roedd y sylwadau a wnaed ynghylch llwyddiannau Hunaniaith yn tueddu i amlygu gweithgareddau a phrosiectau penodol; tra roedd y rhwystrau a nodwyd yn tueddu i fod yn agweddau ar drefniadaeth a rheolaeth gyffredinol Hunaniaith. Crynhoir yr ymatebion isod:

Llwyddiannau Hunaniaith

- Y gwaith arloesol o ddod â chyrff cyhoeddus at ei gilydd ar gychwyn y daith a sefydlu'r grwpiau thematig.
- Sefydlu Academi Sgiliau Iaith Gwynedd.
- Sefydlu cyfundrefn i hwyluso cyfieithu-ar-y-pryd yn lleol.
- Datblygu a hyrwyddo Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd ar y cyd â'r Adran Addysg.
- Llwyddo i weithredu ar wahanol lefelau – strategol, partneriaethol a chymunedol dros gyfnod o ddegawd.
- Y cydweithio da a fu gydag ystod o bartneriaid statudol a mudiadau gwirfoddol.
- Nodwyd y gwaith a gynhaliwyd yn Nolgellau a Phwllheli fel enghraifft dda o ymwneud yn greadigol gyda'r gymuned leol.
- Datblygu e-fodiwl mewn ymwybyddiaeth iaith ar y cyd â sefydliad addysg bellach Grŵp Llandrillo Menai.
- Cynnal a datblygu Menter Iaith Bangor – er bod rhai heriau'n parhau.
- Prosiectau lleol sy'n dwyn actorion a llenorion i weithio gyda chymunedau.
- Gwaith diweddar a wnaed gyda siaradwyr Cymraeg newydd yn y gymuned.
- Yn ddiweddar iawn, llwyddiant wrth ymateb i'r pandemig drwy droi at hyrwyddo gweithgareddau ar-lein.

Gwnaed y sylw nad oedd Hunaniaith wedi llwyddo i amlygu ystod, amrywiaeth a sylwedd yr holl waith llwyddiannus a wnaed dros y blynyddoedd.

Rhwystrau ac agweddau sydd angen sylw pellach

- Nodwyd bod yr adnoddau sydd ar gael i Hunaniaith yn annigonol i gwrdd â'r anghenion yn y maes ac o'r herwydd bod syniadau a chynlluniau da yn aros heb eu gweithredu.
- Mynegwyd rhwystredigaeth nad oedd dealltwriaeth lawn wedi ei ddatblygu ymysg tîm Hunaniaith o'r posibiliadau sydd yna i ddenu cyllid o ffynonellau cyhoeddus oddi fewn i'r Cyngor ac nad oedd y Cyngor wedi cefnogi a hwyluso tîm Hunaniaith i wneud hynny. Ymddengys fod hynny, ynghyd â methiant i fuddsoddi amser staff i ddenu incwm

ychwanegol ynghyd â newidiadau cyson mewn staff arweiniol, wedi rhwystro'r tîm rhag denu ffynonellau cyllid ychwanegol ac ychwanegu gwerth am arian at y grant craidd.

- Mynegwyd rhwystredigaeth nad oedd dibynnu'n llwyr ar grant gan Lywodraeth Cymru a'i gylch ariannu 1-3 blynedd yn hwyluso blaengynllunio gweithredol na blaengynllunio ariannol ar gyfer y tymor hir.
- Awgrymodd rhai bod angen i Hunaniaith gynnal gwell ffocws ar gynllunio ar sail ymchwil a thystiolaeth cyn bwrw ati i weithredu.
- Mynegwyd siom bod y swydd a oedd yn gysylltiedig â'r Siarter Iaith mewn ysgolion wedi diflannu o dîm Hunaniaith.
- Roedd rhai cyfranwyr o'r farn bod tuedd i Hunaniaith fod yn ynysig rhag Mentrau Iaith Cymru a mentrau iaith unigol eraill; a bod hynny'n medru rhwystro rhannu profiadau ac arferion da.
- Mynegwyd pryder fod yna bellter rhwng y Grŵp Strategol a'r gwaith yn y maes, gan achosi diffyg cyfeiriad strategol, cefnogaeth i staff ac atebolrwydd.
- Mynegwyd pryder nad oedd Hunaniaith wedi llwyddo i feithrin perchnogaeth ranbarthol ymysg unigolion a grwpiau sydd â diddordeb mewn cyd-gynllunio dyfodol ffyniannus i'r Gymraeg.
- Drwyddi draw, amlygwyd y tensiwn sylfaenol a gyfeiriwyd ato eisoes, sef y canfyddiad, ar yr un llaw, bod y cyflogwr yn disgwyl i Hunaniaith weithredu'n strategol ymhlith partneriaid yn y sector gyhoeddus a rhwydweithiau sirol a'r canfyddiad, ar y llaw arall, bod y cyllidwr yn pwyso ar i'r gwaith a gefnogir ganddynt gael ei ganolbwyntio yn y cymunedau lleol.

Yn olaf, cafwyd dwy farn wahanol ynghylch natur ieithyddol cymunedau Gwynedd. Roedd rhai o'r farn bod y sefyllfa ieithyddol yng Ngwynedd yn wahanol iawn i ardaloedd eraill o Gymru – yn enwedig y de-ddwyrain a'r gogledd ddwyrain. Gan gydnabod bod yna wahaniaeth sylfaenol yn y ffaith mai'r Gymraeg yw iaith weinyddol Cyngor Gwynedd, roedd eraill o'r farn nad yw sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd a'r heriau sy'n ei hwynebu mor wahanol â hynny, erbyn hyn, i'r heriau ieithyddol sy'n wynebu ardaloedd eraill yn y gogledd-orllewin a'r de-orllewin.

Isod byddwn yn ymdrin ymhellach â rhai o'r materion hyn dan y penawdau canlynol:

- swyddogaeth Hunaniaith,
- blaenoriaethau gweithredol,
- atebolrwydd, llywodraethiant a statws,
- ymateb i ddaearyddiaeth a demograffeg Gwynedd,
- cyllid ac adnoddau,
- proffil cyhoeddus ac enw.

Wrth wneud hynny byddwn hefyd yn ceisio dwyn sylw at enghreifftiau o fodelau eraill o strwythuro, cyllido a gweithredu a welir ymhlith rhai o awdurdodau lleol a mentrau iaith eraill Cymru.

Ar ddiwedd pob adran fe godwn rhai cwestiynau allweddol ar gyfer eu hystyried ymhellach gan y Cyngor a'i bartneriaid.

## 4.1 Swyddogaeth Hunaniaeth

O holi'r cyfweleion ynghylch prif nod a swyddogaeth Hunaniaith cafwyd amrywiaeth barn. Roedd y farn honno yn rhychwantu'r daith hanesyddol a gyfeiriwyd ati eisoes o'r swyddogaeth wreiddiol fel uned bolisi strategol ac arbrofol i'r gweithgaredd a'r ymrwymiadau cymunedol cyfredol.

O edrych ar gofnodion gwaith a chyflawniadau Hunaniaith ers ei sefydlu, gwelir bod Hunaniaith wedi cyflawni nifer o swyddogaethau dros y ddegawd ddiwethaf:

- gweithredu'n strategol ar lefel sirol mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus, rhwydweithiau sirol ac asiantaethau eraill, e.e. sefydlu'r Academi Sgiliau Iaith;
- cydweithio ag adrannau o'r Cyngor Sir, gan ychwanegu gwerth i agweddau eraill o weithrediad y Cyngor drwy amlygu materion cynllunio iaith, cynghori ar sail hyfywedd y Gymraeg a datblygu blaengareddau newydd ymestynnol, e.e. Siarter Iaith Ysgolion Cynradd Gwynedd;
- ysgogi, hwyluso a chefnogi grwpiau o fewn y gymuned leol i weithredu o blaid y Gymraeg ar lawr gwlad, e.e. trwy gyfrwng Gweithredu'n Lleol a'r gefnogaeth o roddir i Fenter Iaith Bangor;
- darparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol i unigolion a rhwydweithiau lleol, e.e. trwy weithredu prosiectau ar y cyd â chymunedau lleol a thrwy gomisiynu gweithgareddau gan ddarparwyr trydydd parti.

O ganlyniad i'r newidiadau allweddol a welwyd dros y bum mlynedd ddiwethaf ac a ddisgrifiwyd uchod, y duedd gyffredinol ar draws Cymru bellach yw i'r ddwy swyddogaeth gyntaf gael eu gweithredu'n bennaf dan (a) mantell Cynlluniau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a (b) gan awdurdodau lleol unigol dan fantell eu Cynllun Hybu'r Gymraeg. Gweithredir y ddwy swyddogaeth olaf, ar y cyfan, gan fentrau iaith a mudiadau gwirfoddol eraill – p'un ai'n fudiadau sy'n perthyn yn draddodiadol i'r maes hyrwyddo'r Gymraeg neu'n gyrff trydydd sector sy'n hyrwyddo datblygiad economaidd, cymdeithasol a chymunedol yn lleol.

Yng Ngwynedd, mae materion polisi a chynllunio iaith strategol yn cael eu gosod a'u gweithredu dan fantell Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a'i Gynllun Llesiant. Mae Cyngor Gwynedd hefyd yn hyrwyddo'i Gynllun Hybu'r Gymraeg drwy aelodau o staff yr Uned Democratiaeth ac Iaith, sydd hefyd yn hyrwyddo ac yn arolygu'r Safonau mewn Perthynas â'r Gymraeg a strategaethau eraill mewn cydweithrediad â swyddogion cyswllt mewn adrannau unigol. Maent yn adrodd ar yr agweddau yma o'u gwaith i Bwyllgor Iaith Cyngor Gwynedd.

Ymddengys bod rôl gychwynnol Hunaniaith yn ymhél â'r gwaith corfforaethol yma yn parhau i greu dryswch ar y sefyllfa gyfredol.

**Enghreifftiau cymharol**

Yng Ngheredigion, mae Swyddog Iaith a Chydraddoldeb Cyngor Sir Ceredigion yn cefnogi gweithrediad y Safonau mewn perthynas â'r Gymraeg yn fewnol mewn cydweithrediad â grŵp mewnol o swyddogion ac, at hynny, yn hwyluso gweithrediad Strategaeth Iaith Ceredigion drwy Fforwm Dyfodol Dwyieithog Ceredigion, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau cyhoeddus y sir ynghyd â grwpiau gwirfoddol â diddordeb. Hyrwyddir y Gymraeg ar lawr gwlad (mewn cydweithrediad â grwpiau cymunedol yn lleol) gan Cered – sy'n uned o fewn Cyfadran Llesiant Cymunedol a Dysgu y Cyngor – mewn partneriaeth â nifer o fudiadau, cymunedau, ysgolion a gwasanaethau'r Cyngor. Lleolir Cered ar gampws Theatr Felin-fach gyda nifer o wasanaethau eraill y Cyngor sydd â rhyngwyneb uniongyrchol â chymunedau'r sir. O fewn trefniadaeth y Cyngor

Sir, ceir pwyllgor craffu sy'n bwrw gorolwg ar y Gymraeg o ran polisi cyffredinol a gweithrediad y Safonau.


Yn Sir Gâr, mae Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin 2016-21 yn cael ei harolygu a'i hwyluso drwy Fforwm Iaith Strategol Sirol syn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Fforwm yn cynnwys aelodau etholedig a staff y Cyngor, mudiadau a sefydliadau â diddordeb, tair menter iaith y sir a chynrychiolwyr grwpiau pwyso. Mae gan y Fforwm gadeirydd annibynnol, Meri Huws, sy'n llywio'r cylch gorolwg. Ceir trafodaethau thematig rheolaidd a chyweithiau tasg-a-gorffen pwrpasol rhwng partneriaid.

At hynny, mae yna banel o aelodau etholedig sy'n cynnal gorolwg ar bolisi a'r Safonau ac fe hyrwyddir y Gymraeg fel rhan o'r Cynllun Llesiant gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ceir strwythurau perthnasol hefyd yng nghyswllt partneriaid amlwg fel yr Adran Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Trydydd Sector.

Mae gan y Cyngor Sir Dîm Polisi a Phartneriaeth o dri aelod staff (2.5 llawn amser). Mae cynnal gorolwg dros faterion y Gymraeg yn y sir yn un o brif gyfrifoldebau'r tîm – cyfwerth â 1.5 swydd llawn amser ar hyn o bryd, gyda'r posibilrwydd y bydd y tîm yn cael ei ehangu yn y dyfodol agos. Ceir swyddogion cyswllt hefyd mewn adrannau eraill sydd â chyfrifoldeb am y Gymraeg.

Mae'r Cyngor Sir yn darparu grant blynyddol o £18,500 i'r dair fenter iaith yn y sir. Cytunir ar dargedau perthnasol a cheir cyfarfodydd monitro rhyngddynt â swyddogion y Cyngor dair gwaith y flwyddyn.

Ffigwr 2: Mecanwaith Strategaeth Hybu'r Gymraeg Sir Gaerfyrddin 2016-21



**Cwestiynau allweddol:**

- Sut mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg ar lefel strategol – (a) yn fewnol o fewn y Cyngor ei hun, (b) o ran effaith ei wasanaethau ar unigolion a chymunedau ac (c) o ran cydweithio â phartneriaid allweddol o blith sefydliadau'r sir a rhwydweithiau sirol?

- Sut mae Cyngor Gwynedd yn mynd i ysgogi a chefnogi unigolion a grwpiau o fewn y gymuned leol i weithredu o blaid y Gymraeg ar lawr gwlad?

- O ystyried y newidiadau allweddol a fu yn y tirwedd cynllunio iaith dros y pum mlynedd ddiwethaf, beth ddylai fod yn brif swyddogaeth i Hunaniaith i'r dyfodol?

### 4.2 Blaenoriaethau gweithredol

Cydnabu pawb a holwyd gennym bod blaenoriaethau gweithredol Hunaniaith yn cael eu pennu a'u cyfyngu gan amodau Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae'r blaenoriaethau penodol hynny yn cael eu cytuno ar y cyd rhwng Hunaniaith a swyddogion y Llywodraeth. Mae lle i drafod ac amrywio'r blaenoriaethau hynny yn ôl amgylchiadau sirol, o gadw at amcanion strategol y grant.

Yn ychwanegol at hynny, mae modd i Hunaniaith ysgogi datblygiadau ar y cyd â gwasanaethau eraill o fewn y Cyngor ond nid yw'r tîm staff, fe ymddengys, yn yr arfer o ddenu arian prosiect o ffynonellau eraill – oddi fewn nac oddi allan i'r Cyngor ei hun. Mae'r potensial i ehangu sgôp y gweithgaredd, felly, wedi ei gyfyngu'n ddirfawr.

Mynegwyd ansicrwydd gan rai a holwyd ynghylch y graddau mae blaenoriaethau gweithredol Hunaniaith yn cael eu seilio ar ymchwil a thystiolaeth cadarn.

Mynegwyd amheuaeth hefyd ynghylch addasrwydd darparu gwasanaethau uniongyrchol i gymunedau drwy gyfrwng menter iaith yng Ngwynedd – yn enwedig gan fod hynny'n digwydd dan fantell yr awdurdod lleol.

Cynigiwyd sylwadau hefyd ynghylch diffyg addasrwydd y mesuriadau llwyddiant a hyrwyddir gan y cynllun grant, sydd wedi eu seilio ar ddangosyddion perfformiad ac allbynnau yn hytrach nac ar ganlyniadau strategol. Awgrymwyd hefyd nad oedd y cynllun grant yn caniatáu i Hunaniaith weithredu o fewn gorwel strategol digon hirdymor.

**Enghreifftiau cymharol**

Oherwydd eu statws annibynnol mae'r mwyafrif llethol o fentrau iaith Cymru yn llwyddo i ddenu incwm atodol at gynllun grant y Llywodraeth gan ehangu meysydd eu gweithgaredd. Mae mentrau iaith sy'n rhan o awdurdodau lleol – megis Cered a Menter Brycheiniog – hefyd yn llwyddo i ddenu arian prosiect ychwanegol o bryd i'w gilydd o amrywiol ffynonellau.

Mae'r gweithgareddau hynny'n rychwantu'r gweithgareddau canlynol:

- prosiectau ym myd gwaith a'r economi leol (Menter Iaith Môn),

- gwasanaeth hyfforddi gweithgareddau awyr agored (Menter Iaith Conwy),
- prosiectau addysg TG (Cered),
- prosiectau datblygu cymunedol (mentrau iaith Sir Gâr),
- gweithredu comisiynau yn y maes iechyd a gofal (mentrau iaith Sir Gâr), a
- phrosiectau amgylcheddol (Menter Iaith Sir Bentro).

At hynny, mae nifer o fentrau iaith wedi datblygu nifer o wasanaethau a gweithgareddau ar sail masnachol, e.e. gofal plant, gwasanaethau cyfieithu, asiantaeth ymgynghorol, gweithgareddau hamdden. Mae hynny wedi digwydd yn bennaf, ond nid yn ddieithriad, yn ardaloedd y de-ddwyrain.

**Cwestiynau allweddol:**

- Sut mae ehangu sgôp a rhychwant y gweithgaredd a ysgogir gan Hunaniaith i'r dyfodol, y tu hwnt i ofynion y Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg?

- Sut mae mesur llwyddiant Hunaniaith o ran canlyniadau – yn strategol ac yn yr hirdymor?

### 4.3 Atebolrwydd, llywodraethant a statws

Roedd atebolrwydd, llywodraethant a statws Hunaniaith yn fater a oedd yn ennyn cryn sylw gan gyfranwyr. Cafwyd unoliaeth barn bod angen adolygu'r sefyllfa. Ymysg y materion a godwyd yn y cyswllt hwn roedd yr angen:

- i sefydlu trefn arweiniol a mecanwaith atebolrwydd mwy tryloyw a chlir o ran ei chyfrifoldebau a'i threfniadau adrodd,
- i sicrhau cyfarfodydd arweiniol rheolaidd,
- i sicrhau bod aelodaeth unrhyw grŵp arweiniol yn cynnwys ystod addas o brofiadau a sgiliau ac yn ateb gofynion corfforaethol, strategol a gweithredol,
- i sicrhau mwy o lais i gymunedau Gwynedd yn nhrefniadaeth Hunaniaith,
- i wahaniaethu rhwng yr angen i sicrhau gorolwg strategol dros ffyniant y Gymraeg yn y sir a'r angen am arolygiaeth weithredol i Hunaniaith,
- i sefydlu trefniadaeth a statws gorfforaethol a fyddai'n mwyhau ffynonellau incwm posibl, gan ehangu gweithgaredd Hunaniaith i'r dyfodol.

Gwelwyd bod manteision i'r sefyllfa bresennol o weithredu fel uned wasanaeth o fewn yr awdurdod lleol. Roedd y manteision hynny yn cynnwys:

- y statws a ddaw o weithio fel rhan o awdurdod lleol,
- bod diwylliant corfforaethol Cymraeg y Cyngor yn fantais arwyddocaol o ran amlygu gwerth y Gymraeg,
- y gallu i rwydweithio gyda gwasanaethau ac adrannau eraill o fewn y Cyngor,
- y gallu i ddylanwadu ar wasanaethau eraill y cyngor a datblygu prosiectau ar y cyd, ac
- i'r staff:
    - trefniadau gwaith ac amodau cyflogaeth cadarn a deniadol, a
    - chefnogaeth TG effeithiol.

Er hynny, nodwyd rhai anfanteision o weithredu fel menter iaith o fewn Cyngor Gwynedd:

- bod ymrwymiad gwasanaethau'r Cyngor a pharodrwydd swyddogion unigol i gydweithio â Hunaniaith yn amrywio ar draws y Cyngor,
- bod adrannau a gwasanaethau eraill yn medru bod yn amddiffynnol o'u cyllidebau,
- bod llais Hunaniaith ddim wastad yn cario'r pwysau cryfaf o fewn strwythurau'r Cyngor,
- er bod cyfrifoldeb cyffredinol i hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y Cyngor nid oedd dull amlwg o sicrhau ffocws ar faterion cynllunio iaith,
- bod gweithio i'r Cyngor yn medru bod yn gleddyf deufin pan yn gweithio gyda chymunedau lleol – gan danseilio ymddiriedaeth a rhwystro creu partneriaethau ar adegau, a
- bod syniadau gweithredol yn medru cymryd amser maith i'w datblygu a'u cymeradwyo o fewn y Cyngor, gan rwystro'r tîm rhag medru ymateb yn gyflym i sefyllfaoedd sy'n gofyn am ymateb sydyn.

At hynny, codwyd y cwestiwn ynghylch lleoliad presennol Hunaniaith o fewn trefniadaeth yr Adran Gorfforaethol. Tra'n derbyn bod hynny'n briodol ar gyfer gweithredu cyfrifoldebau statudol a strategol y Cyngor, codwyd amheuaeth ynghylch priodoldeb hynny i Hunaniaith fel gwasanaeth oedd yn ymwneud â chymunedau. Awgrymwyd, er enghraifft, y gallai'r Adran Datblygu Economaidd fod yn leoliad mwy priodol ar gyfer y gwaith hwnnw.

Nodwyd hefyd bod statws gyfredol Hunaniaith fel uned wasanaeth o fewn y Cyngor Sir yn ei rwystro rhag ymaelodi'n llawn â Mentrau Iaith Cymru (MIC). Er hynny, mynegwyd y farn hefyd nad oedd gweithgarwch MIC bob amser yn berthnasol i fwriadau, cyd-destun a gweithgaredd Hunaniaith.

Cynhaliodd uned ymchwil Cyngor Gwynedd ymgynghoriad cyhoeddus ar ran Hunaniaith rhwng Mawrth a Mehefin 2020 er mwyn casglu barn ynghylch cyfeiriad gwaith Hunaniaith i'r dyfodol. Nid yw'r ymatebion wedi eu dadansoddi yn llawn na'u cyhoeddi hyd yma. Fodd bynnag, mae swyddogion y Cyngor wedi rhannu rhai prif ganfyddiadau.

Wrth holi barn ynghylch y strwythur fyddai'n gweithio orau er mwyn hybu a chynyddu'r defnydd o Gymraeg yng Ngwynedd cafwyd y canfyddiadau canlynol:

- roedd 12% o'r rhai a holwyd yn ffafrio parhau gydag un fenter iaith sirol;
- roedd 17% yn cefnogi gweld cyfres o fentrau iaith lleol yn hytrach nag un fenter iaith sirol,
- roedd 37% yn dymuno gweld cyfuniad r ddau ddewis uchod, ac
- nid oedd 34% wedi ateb y cwestiwn na mynegi barn. [9]

[9] Seiliwyd ar ganfyddiadau ymchwil cychwynnol wnaed gan Uned Ymchwil Cyngor Gwynedd ar ran Hunaniaith rhwng Mawrth-Mehefin 2020 (heb ei gyhoeddi). Nid wyddys yr awduron fanylion y gwaith ymchwil na'r sampl a holwyd hyd yma.

**Enghreifftiau cymharol**

Mae'r rhan fwyaf o fentrau iaith Cymru yn endidau annibynnol. Ar y cyfan, cwmnïau cyfyngedig gan warant ydynt. Mae rhai ohonyn nhw hefyd wedi eu cofrestru fel elusennau.

Er hynny, gweithredir tair menter yng nghanolbarth Cymru o fewn strwythurau awdurdodau lleol:

- Cered – sy'n uned wasanaeth o fewn Adran Llesiant Cymunedol a Dysgu Cyngor Ceredigion,
- Menter Iaith Maldwyn – sy'n grŵp gwirfoddol a ariennir yn uniongyrchol drwy grant gan Gyngor Sir Powys, a
- Menter Iaith Brycheiniog a Maesyfed – sy'n cael ei arwain gan swyddog a gyflogir yn uniongyrchol gan Gyngor Sir Powys.

At hynny, gweithredir Menter Iaith Môn fel uned gwasanaeth o fewn y cwmni datblygu economaidd sirol, Menter Môn.

**Cwestiynau allweddol:**

- Os yw Hunaniaith i barhau i fod yn wasanaeth a ddarperir gan y Cyngor Sir, pa drefniadaeth sy'n mynd i sicrhau:
    - tryloywder ac eglurder o ran gorolwg strategol, arolygiaeth weithredol ac atebolrwydd,
    - y defnydd gorau o brofiadau, sgiliau ac arbenigedd berthnasol, a
    - mwyhau llais cymunedau Gwynedd ym mhrosesau ymgynghorol a chynllunio Hunaniaith.
- Pa ffurf ar statws gorfforaethol fyddai'n medru mwyhau ffynonellau incwm ac ehangu gweithgaredd Hunaniaith i'r dyfodol?

### 4.4 Ymateb i ddaearyddiaeth a demograffeg Gwynedd

Mae Gwynedd yn ardal eang ac amrywiol ei daearyddiaeth a'i demograffeg. Mae'r sir yn 2,548 $km^2$ (984 milltir sgwâr) ac yn cynnwys ucheldiroedd mynyddig helaeth yn ogystal â Phenrhyn Llŷn a 180 milltir o arfordir. Mae'r boblogaeth tua 125,000 ac yn cynnwys dinas Bangor (bron i 20,000 o bobl), Caernarfon (bron i 10,000 o bobl) a nifer o drefi marchnad a chanolfannau arfordirol.

Gwynedd yw'r sir gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg – 65% yn 2011 – sy'n cynrychioli 77,000 o siaradwyr. Mae'r canrannau o siaradwyr Cymraeg yn amrywio'n fawr yn ôl cymunedau – o 87.8% ac 87.4% yn Llanrug a Pheblig i 35.5% yn Aberdyfi. Er hyn, mae'r gyfran o siaradwyr Cymraeg yn cynrychioli o leiaf 30% o'r boblogaeth barhaol ymhob ward heblaw dwy, sef ward Menai (18.6%) a ward Deiniol (22.8%) ym Mangor.[10]

Fel nodwyd eisoes, roedd nifer o'r cyfranogwyr o'r farn bod sefyllfa ieithyddol Gwynedd yn wahanol i ardaloedd eraill yng Nghymru. Roedd eraill, er yn cydnabod statws y Gymraeg fel iaith weinyddol

[10] Strategaeth Iaith Gwynedd 2014-17.

o fewn y Cyngor a'r nifer o gymunedau arwyddocaol sy'n cynnwys dros 70% o siaradwyr Cymraeg, yn dadlau nad oedd yr heriau sy'n debygol o wynebu Gwynedd yn ystod y ddegawd nesaf mor wahanol â hynny i'r heriau fydd yn wynebu gweddill siroedd y gogledd a'r gorllewin. At hynny, na fydd y datrysiadau posibl mor wahanol â hynny o ardal i ardal chwaith.

O ystyried yr amrywiaeth ieithyddol o fewn cymunedau Gwynedd – o Lanrug i Aberdyfi – cafwyd barn wahanol ar sut i ymateb orau i'r ystod o sefyllfaoedd ieithyddol hyn. Roedd rhai'n dadlau dros ganolbwyntio ar gryfhau gwytnwch y cymunedau uchel eu canrannau o siaradwyr Cymraeg. Roedd eraill yn pledio bod y cymunedau gwydn yn datblygu eu mecanweithiau a'u deinameg amddiffynnol eu hunain ac mai'r cymunedau isaf eu canrannau o siaradwyr ddylai fod yn cael y sylw blaenaf gan Hunaniaith. Roedd eraill eto yn dadlau o blaid canolbwyntio ar y tir canol a'r cymunedau hynny sy'n ffiniol ac yn fregus o ran hyfywedd y Gymraeg. Roedd eraill nad oedd â barn benodol i'w fynegi ond a oedd yn cydnabod y penbleth. Awgrymodd nifer mai ar sail ymchwil ac arbenigedd cynllunio iaith y dylid wynebu'r mater hwn a bod angen datblygu atebion ac ymyraethau amrywiol a fyddai'n ateb y gofyn yn lleol.

Fel nodwyd uchod, cynhaliodd uned ymchwil Cyngor Gwynedd ymgynghoriad gyda'r cyhoedd ar ddechrau 2020 er mwyn casglu barn ynghylch cyfeiriad gwaith Hunaniaith i'r dyfodol. Wrth holi ym mha fath o gymunedau ieithyddol y dylai Hunaniaith fod yn canolbwyntio ei ymdrechion o ran hyrwyddo'r Gymraeg, nodwyd yr ymatebion a ganlyn:

- roedd 52% o'r rhai a ymatebodd yn nodi y dylai Hunaniaith fod yn canolbwyntio ar hyrwyddo'r Gymraeg yn gyson ar draws y sir;
- roedd 13% yn nodi mai'r ardaloedd lle ceir 50 – 69% o siaradwyr Cymraeg ddylai ddenu'r sylw mwyaf;
- roedd 7% yn nodi mai ar y cadarnleoedd yn unig y dylai Hunaniaith ganolbwyntio ei ymdrechion,
- roedd 2.3% yn nodi mai yn yr ardaloedd ble mae'r Gymraeg ar ei gwanaf yn unig y dylai Hunaniaith weithredu, at hynny
- doedd 25% o'r rhai a holwyd heb gynnig ymateb i'r cwestiwn hwn. [11]

Gwelwyd barn gyffredinol, felly, y dylai golygon Hunaniaith barhau i fod yn sirol ei rychwant.

Yn hytrach na chymryd ymagwedd ddaearyddol roedd rhai cyfranwyr yn pwysleisio'r angen i weithredu'n thematig o fewn rhwydweithiau, sectorau, peuoedd neu grwpiau oedran penodol ar draws ranbarthau neu ar draws y sir cyfan, e.e. clybiau chwaraeon, busnesau, cynghorau cymuned a'r grŵp oedran 16-24 oed.

O ystyried daearyddiaeth eang Gwynedd, roedd cytundeb cyffredinol ynghylch doethineb gweithredu'n rhanbarthol. Cynigiwyd y dair ardal draddodiadol fel un model weithredol – Arfon, Dwyfor a Meirionnydd. Awgrymwyd hefyd y gellid ystyried yr wyth ardal llesiant neu pedair ardal y Fforymau Ardal (Ogwen, Gwyrfai, Dwyfor a Meirionnydd), fel unedau gweithredol ar gyfer Hunaniaith i'r dyfodol.

[11] Ymchwil gan Hunaniaith / Cyngor Gwynedd (2020), heb ei gyhoeddi.

Menter Iaith Bangor

Roedd nifer sylweddol o'r cyfranwyr yn cydnabod bod Menter Iaith Bangor yn cynnig rhai anawsterau i drefniadaeth a gweithrediad Hunaniaith fel endid. Roedd y ffaith fod Menter Iaith Bangor yn hawlio 30% o'r gyllideb a 40% o'r adnodd staff – ar gyfarwyddyd y cyllidwr – yn destun rhwystredigaeth i lawer.

Er na welwyd tystiolaeth ddogfennol berthnasol, mynegwyd y canfyddiad cadarn gan nifer o unigolion mai'r bwriad gwreiddiol oedd bod Hunaniaeth i ddarparu arian had ar gyfer sefydlu Menter Iaith Bangor o hyd at 30% o'i gyllideb; a bod y gefnogaeth hynny i leihau tan 2019 wrth i Fenter iaith Bangor ddod yn fwyfwy hunangynhaliol. Ymddengys na ddigwyddodd hynny.

Er hynny, cafwyd cydnabyddiaeth gyffredinol fod dinas Bangor yn darged dilys ac arwyddocaol i fesurau cynllunio iaith o fewn y sir a bod yno botensial am enillion sylweddol.

Awgrymodd rhai cyfranwyr y dylai Hunaniaith ystyried ehangu cyfrifoldeb y staff sy'n gysylltiedig â Menter Iaith Bangor i gynnwys ardal ehangach – Arfon gyfan neu o leiaf y rhannau hynny o Arfon sydd â pherthynas gymdeithasol ac economaidd â Bangor, e.e. ardal Fforwm Ardal Ogwen.

Cafwyd awgrymiadau cadarn hefyd nad oedd y berthynas rhwng Hunaniaith a Menter Iaith Bangor fel endid annibynnol yn un gwbl eglur a bod angen datblygu dealltwriaeth a pherthynas mwy rhagweithiol rhwng y ddau.

Awgrymwyd hefyd gan ambell un a holwyd bod adeilad y Popdy yn medru cynnig rhai heriau diangen, e.e. ei fod yn bwyta adnoddau ac amser, a'i fod yn anghyfleus ac yn anhygyrch.

**Enghreifftiau cymharol**

Mae Sir Gaerfyrddin yn ardal awdurdod lleol eang ac amrywiol ei daearyddiaeth sydd hefyd yn un o gadarnleoedd y Gymraeg ac sy'n cynnwys amrywiaeth ieithyddol ymhlith ei chymunedau.

Sefydlwyd y fenter iaith gyntaf yng Nghymru yng Nghwm Gwendraeth yn 1991. Ers hynny sefydlwyd nifer o fentrau iaith eraill yn y sir. Am gyfnod bu chwe menter iaith leol yn gweithredu dan faner gydlynol Mentrau Iaith Myrddin. Bellach ceir tair menter iaith yn y sir – Menter Cwm Gwendraeth Elli, Menter Bro Dinefwr a Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr.

Mae'r dair fenter yn cydweithio â'r Cyngor Sir drwy Fforwm Iaith Sir Gaerfyrddin ac yn cyflwyno ceisiadau ar y cyd i gynllun grant Llywodraeth Cymru. Mae'r dair fenter yn gyrff annibynnol ac yn llwyddo i ddenu cyllid prosiect ychwanegol sylweddol drwy ffynonellau grant, comisiynau a gweithgareddau masnachol amrywiol.

Mae Cyngor Sir Powys yn ymateb i'w heriau daearyddol nhw drwy gefnogi dwy fenter iaith mewn amrywiol ffyrdd yn Sir Drefaldwyn ac yn Sir Frycheiniog.

Ar y llaw arall, yn y gogledd-ddwyrain gwelwyd esblygiad o fath arall. Mae'r ddwy fenter iaith a gafodd eu sefydlu'n wreiddiol yn Sir y Fflint ac yn ardal Wrecsam Maelor bellach yn gweithredu ar y cyd.

**Cwestiynau allweddol:**

- Pa drefniadaeth sydd angen ei datblygu er mwyn hwyluso Hunaniaith i ateb y gofynion amrywiol sy'n deillio o amrywiaeth daearyddol a demograffeg Gwynedd?
- Pa berthynas ddylai ddatblygu rhwng Menter Iaith Bangor a Hunaniaith i'r dyfodol?

### 4.5 Cyllid ac adnoddau

Grant Cynllun Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg Llywodraeth Cymru yw prif ffynhonnell cyllidol Hunaniaith, gyda Chyngor Gwynedd yn cyfrannu 30% o amser rheolwr llinell ynghyd â leoliadau gwaith.

Gwelir crynodeb o'r incwm grant hynny dros y 6 mlynedd ariannol ddiwethaf isod:

Tabl 2: Crynodeb o'r incwm a dderbyniwyd gan Hunaniaith drwy gyfrwng Cynllun Grant Hybu a Hyrwyddo'r Gymraeg Llywodraeth Cymru 2015-2021

| Blwyddyn ariannol | Cyfanswm y grant a dderbyniwyd | Swyddi a gefnogwyd |
|---|---|---|
| 2015-16 | £224,362 | 3 swyddog datblygu<br>1 cydlynydd y Siarter Iaith |
| 2016-17 | £194,262 | 2 swyddog datblygu<br>1 cydlynydd y Siarter Iaith<br>1 Swyddog Datblygu Bangor |
| 2017-18 | £166,890 | 2 swyddog datblygu<br>1 Swyddog Datblygu Bangor |
| 2018-19 | £166,890 | 2 swyddog datblygu<br>1 Swyddog Datblygu Bangor |
| 2019-20 | £166,890 | 2 swyddog datblygu<br>1 Swyddog Datblygu Bangor |
| 2020-21 | £166,890 | 2 swyddog datblygu<br>1 Swyddog Datblygu Bangor |

Dros y cyfnod uchod mae cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru i Hunaniaith wedi gostwng o swm o £57,472 – sy'n cyfateb i doriad o 26% dros y cyfnod. O ganlyniad, mae'r tîm staff wedi syrthio o 4 aelod i 3. At hynny, ers 2016 ar gyfarwyddyd y cyllidwyr mae £50,000 o'r grant wedi ei neilltuo ar gyfer cefnogi gwaith Hunaniaith ym Mangor ar y cyd â Menter iaith Bangor. Mae cyfanswm y grant wedi aros yn £166,890 ers pedair blynedd.

Ar wahân i gyllideb o oddeutu £20,000 o gyllid prosiectau a glustnodir ar gyfer cynnal prosiectau a gweithgareddau mae'r rhelyw o gyllideb Hunaniaith yn cynnal swyddi. Cyflogir y swyddogion datblygu ar raddfa PS1-PS2 o fewn strwythur y Cyngor.

Cyflwynwyd copïau o gyllidebau Hunaniaith ers 2015-16 i'n sylw. Ni welwyd unrhyw dystiolaeth o arian ategol yn cael ei ddenu at y grant craidd sylfaenol. Ni welwyd tystiolaeth chwaith bod Cyngor Gwynedd yn cyfrannu 'arian sychion' at gyllideb Hunaniaith.

Nododd nifer fawr o'r unigolion â holwyd eu bod yn gweld y diffyg adnoddau ariannol atodol yn lyffethair ar Hunaniaith. Ni fu modd i Hunaniaith ddatblygu ac ehangu sgôp a sylwedd ei weithgareddau dros y 5 mlynedd ddiwethaf o'r herwydd. Deallwn fod y sefyllfa hon wedi datblygu oherwydd dau brif ffactor: (a) diwylliant mewnol na fu'n annog na hwyluso ceisiadau am gyllid atodol gan staff Hunaniaith, boed oddi fewn neu oddi allan i'r Cyngor; a (b) diffyg buddsoddiad mewn amser staff i ymchwilio i ffynonellau addas a pharatoi ceisiadau, yn rhannol gan fod gymaint o ffocws ar gyflawni prosiectau a thargedau'r cynllun gwaith.

Nodwyd hefyd bod y sefyllfa gyfredol a natur blynyddol y grant o fewn cylch o 3 blynedd gynllunio yn rwystr rhag cynllunio ar gyfer y tymor hir.

Roedd y ffaith bod £50,000 o'r gyllideb yn cael ei neilltuo i ardal Bangor hefyd yn destun rhwystredigaeth i nifer a oedd yn teimlo nad oedd gweddill Gwynedd yn derbyn dyraniad teg o'r gyllideb

Cafwyd rhai sylwadau hefyd ynghylch Popdy. Roedd rhai cyfranwyr yn teimlo bod y ganolfan yn dargyfeirio adnoddau refeniw y gellid eu gwario yn uniongyrchol yn y maes.

**Enghreifftiau cymharol**

Tra bo Hunaniaith wedi dibynnu yn helaeth iawn ar grant Llywodraeth Cymru ar gyfer cyflogi crynswth ei staff ac i ddarparu arian prosiect – gyda chefnogaeth mewn da ar ffurf amser rheolwr (30%) a lleoliadau gwaith yn cael eu darparu gan Gyngor Gwynedd – mae mentrau iaith eraill, sydd wedi cael eu sefydlu fel cwmnïau cyfyngedig trwy warant (ac elusennau mewn ambell achos) wedi medru mwyhau eu hincwm, cynyddu ac ehangu eu gweithgaredd a lleihau eu dibyniaeth ar dderbyn grant craidd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'r ffrydiau incwm atodol hyn yn cynnwys:

- grantiau gan gyrff cyhoeddus amrywiol,
- grantiau gan gronfeydd elusennol,
- prosiectau a ddatblygwyd ar y cyd ag adrannau o awdurdodau lleol,
- comisiynau am waith ymgynghorol neu reoli prosiectau,
- incwm a gynhyrchwyd o weithgareddau,
- incwm o is-gwmnïau masnachol, a
- gweithgareddau codi arian uniongyrchol.

Wele dair enghraifft o dri chornel o Gymru, ar sail y cyfrifon diweddaraf a gofrestrwyd ganddynt gyda Thŷ'r Cwmnïau, sef ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19:

<u>Menter Iaith Sir Caerffili:</u>

| | |
|---|---|
| Cyfanswm incwm | £814,278 |
| Grant Llywodraeth Cymru | £ 95, 552 |

Canran y grant yn erbyn yr incwm cyfan – 12%

<u>Menter Iaith Gorllewin Sir Gâr:</u>

| | |
|---|---|
| Cyfanswm incwm | £606,818 |
| Grant Llywodraeth Cymru | £ 72,688 |

Canran y grant yn erbyn yr incwm cyfan – 19%

Menter Iaith Conwy:

| | |
|---|---|
| Cyfanswm incwm | £213,664 |
| Grant Llywodraeth Cymru | £105,570 |

Canran y grant yn erbyn yr incwm cyfan – 49%

Gwelir felly, bod y mentrau hyn ac eraill yn llwyddo i ychwanegu gwerth ariannol sylweddol at grant craidd Llywodraeth Cymru ac unrhyw gefnogaeth ariannol a dderbyniant gan eu hawdurdodau lleol.

Mae nifer o Gynghorau Sir yn darparu grantiau ariannol i fentrau iaith o fewn eu ffiniau, e.e. mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn dosbarthu grantiau o £55,500 i'r dair fenter iaith o fewn y sir yn ogystal ag arian prosiect achlysurol eraill a chefnogaeth i wyliau lleol megis Gŵyl Canol Dref yng Nghaerfyrddin. Mae'r mentrau iaith, o bryd i'w gilydd, hefyd yn cystadlu ag asiantaethau eraill i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus cymunedol ar ran y Cyngor.

**Cwestiynau allweddol:**

- Sut gall Hunaniaith ddatblygu ffrydiau incwm newydd a fyddai'n ychwanegu at grant craidd llywodraeth Cymru?
- Ydy hi'n fwy tebygol y gellid cynyddu'r ffrydiau incwm hynny o barhau'n uned wasanaeth o fewn Cyngor Gwynedd neu fel endid annibynnol neu led-annibynnol?

### 4.6 Proffil cyhoeddus ac enw

Nododd nifer a holwyd nad oedd gan Hunaniaith y proffil cyhoeddus disgwyliedig gan fenter iaith yn y sir. Er bod hyn yn bryder i nifer o gyfranwyr, gan ddal ei fod yn anhawster i adeiladu perthynas â chymunedau ac ennyn ymddiriedaeth yn lleol, nid oedd yn fater o bwys mawr i eraill. Y gweithgaredd a'i effaith oedd yr elfennau arwyddocaol, nid sicrhau proffil cyhoeddus amlwg.

Ni wnaeth yr enw 'Hunaniaith' godi fel pwnc trafod amlwg. Cafwyd rhai lleisiau nad oedd yn hoff o'r elfen mwys yn yr enw, roedd ambell lais yn pledio ailsefydlu'r enw Menter Iaith Gwynedd, ond ar y cyfan, eilbeth oedd unrhyw drafodaeth ynghylch yr enw.

Noder y byddai unrhyw newid yn yr enw yn golygu defnyddio amser ac adnoddau pwrpasol i ail frandio'r gwaith. Serch hynny, byddai'n gyfle hefyd i godi ymwybyddiaeth i'r gwaith, amlygu cyfleoedd a chreu momentwm o'r newydd.

**Enghreifftiau cymharol**

O’r 21 fenter iaith a restrir ar wefan Mentrau Iaith Cymru mae 14 ohonyn nhw’n arddel y term ‘menter iaith’ yn eu henwau.

Mae 5 menter yn defnyddio’r term ‘menter’ heb gyfeiriad at ‘iaith’. Un rheswm am hynny, e.e. yng nghyswllt mentrau Sir Gâr, oedd athroniaeth sylfaenol y mentrau hynny na ellid gwahanu gweithredu o blaid y Gymraeg oddi wrth datblygu cymunedol, cymdeithasol ac economaidd.

Fel Hunaniaith, nid yw Cered yn arddel ‘menter’ na ‘iaith’ yn ei enw gwreiddiol – er bod tuedd diweddar i ddefnyddio’r is-deitl ‘menter iaith Ceredigion’ fel esboniad. Y syniadaeth wreiddiol oedd defnyddio enw egnïol a fyddai’n adlewyrchu’r dafodiaith leol ac, o beidio arddel y term ‘iaith’, yn adlewyrchu statws y Gymraeg fel prif iaith normadol y sir.

**Cwestiynau allweddol:**

- I ba raddau y mae angen i Hunaniaith newid ei enw yr mwyn adlewyrchu ffocws newydd, swyddogaeth newydd, strwythur newydd neu statws newydd i’r dyfodol?

## 5.0 Dewisiadau

Diben y darn hwn o waith yw cynnig arweiniad i Gyngor Sir Gwynedd a'i bartneriaid perthnasol ar y pwyntiau canlynol yng nghyswllt Hunaniaith yn y cyfnod cyfnewidiol hwn:

- swyddogaeth Hunaniaith a'i flaenoriaethu gweithredol,
- statws a chyfansoddiad Hunaniaith,
- sut orau i fwyhau effaith buddsoddiad y rhan-ddeiliaid, a
- pha strwythur a phatrwm staffio fyddai'n gweddu i'r dyfodol.

Cyn amlinellu manteision ac anfanteision rhai opsiynau, rhestrwn isod y cwestiynau allweddol a nodwyd uchod, er hwylustod. Awgrymir y dylai'r Cyngor a'i bartneriaid ystyried y cwestiynau allweddol hyn cyn ystyried y dewisiadau posibl a chymryd unrhyw benderfyniadau allweddol.

### 5.1 Cwestiynau allweddol

Rhestrir isod y cwestiynau allweddol a godwyd yn sgil y drafodaeth yn Adran 4 uchod.

1. Sut mae Cyngor Gwynedd yn bwriadu hyrwyddo'r defnydd o Gymraeg ar lefel strategol:

   a) yn fewnol o fewn y Cyngor ei hun,
   b) o ran effaith ei wasanaethau ar unigolion a chymunedau, ac
   c) o ran cydweithio â phartneriaid allweddol o blith sefydliadau'r sir a rhwydweithiau sirol?

2. Sut mae Cyngor Gwynedd yn mynd i ysgogi a chefnogi unigolion a grwpiau o fewn y gymuned leol i weithredu o blaid y Gymraeg ar lawr gwlad?

3. O ystyried y newidiadau allweddol a fu yn y tirwedd polisi a chynllunio iaith dros y pum mlynedd ddiwethaf, beth ddylai fod yn brif swyddogaeth i Hunaniaith i'r dyfodol?

4. Sut mae ehangu sgôp a rhychwant y gweithgaredd a ysgogir gan Hunaniaith i'r dyfodol, y tu hwnt i ofynion y Cynllun Grant i Hybu a Hwyluso Defnydd y Gymraeg?

5. Sut mae mesur llwyddiant Hunaniaith o ran canlyniadau – yn strategol ac yn yr hirdymor?

6. Os yw Hunaniaith i barhau i fod yn uned gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor Sir, pa drefniadaeth sy'n mynd i sicrhau:

   a) tryloywder ac eglurder o ran gorolwg strategol, arolygiaeth weithredol ac atebolrwydd,
   b) y defnydd gorau o brofiadau, sgiliau ac arbenigeddau perthnasol, a
   c) mwyhau llais cymunedau Gwynedd ym mhrosesau ymgynghorol a chynllunio Hunaniaith?

7. Pa ffurf ar statws gorfforaethol fyddai'n medru mwyhau ffynonellau incwm ac ehangu gweithgaredd Hunaniaith i'r dyfodol?

8. Pa drefniadaeth sydd angen ei datblygu er mwyn hwyluso Hunaniaith i ateb y gofynion amrywiol sy'n deillio o amrywiaeth daearyddol a demograffeg Gwynedd ynghyd â chynnwys llais y cyhoedd yn ei weithrediad?

9. Pa berthynas ddylai ddatblygu rhwng Menter Iaith Bangor a Hunaniaith i'r dyfodol?

10. Sut gall Hunaniaith ddatblygu ffrydiau incwm newydd a fyddai'n ychwanegu at grant craidd Llywodraeth Cymru?

11. Ydy hi'n fwy tebygol y gellid cynyddu'r ffrydiau incwm hynny o barhau'n uned wasanaeth o fewn Cyngor Gwynedd neu fel endid annibynnol neu led-annibynnol?

12. I ba raddau y mae angen i Hunaniaith newid ei enw yr mwyn adlewyrchu ffocws newydd, swyddogaeth newydd, strwythur newydd neu statws newydd i'r dyfodol?

## 5.2 Dewisiadau posibl

5.2.1 Swyddogaeth

Ar sail y cwestiynau allweddol uchod, awgrymir bod yna nifer o benderfyniadau allweddol sydd angen i'r Cyngor a rhan-ddeiliaid eraill eu cymryd.

Y cyntaf yw diffinio swyddogaethau priodol Hunaniaith o'r ystod a nodwyd yn Adran 4.1, sef:

- swyddogaeth strategol a phartneriaethol,
- swyddogaeth ysgogol o fewn y Cyngor, ei adrannau a'i wasanaethau,
- swyddogaeth ysgogol ac grymusol ar y cyd â chymunedau a rhwydweithiau lleol,
- swyddogaeth weithredol i ysgogi a gweithredu prosiectau uniongyrchol a chynaliadwy ar lawr gwlad

| |
|---|
| Argymhellir y dylai'r ddwy swyddogaeth gyntaf gael eu clustnodi'n glir i dîm o swyddogion polisi o fewn strwythurau'r Cyngor ac mai'r ddwy swyddogaeth olaf ddylai fod yn brif swyddogaeth i Hunaniaith. |

5.2.2 Statws a chyfansoddiad

O gytuno ar hynny, y cwestiwn nesaf sy'n codi yw pa gerbyd, o ran statws a chyfansoddiad, fyddai'n hwyluso gweithrediad y swyddogaethau hynny ac yn mwyhau buddsoddiad unrhyw rhan-ddeiliaid. Byddai'r materion ynghylch strwythurau arweiniol, trefniadau atebolrwydd a phatrymau staffio yn dibynnu, i raddau helaeth, ar y dewisiadau a wneir yn y cyd-destun hynny.

O ran statws a chyfansoddiad awgrymir tri phosibilrwydd:

- bod Hunaniaith yn aros yn uned gwasanaeth o fewn strwythurau Cyngor Gwynedd,
- bod Hunaniaith yn cael ei sefydlu fel endid hyd-braich, e.e. yn is-gwmni dan berchnogaeth Cyngor Gwynedd, neu
- bod Hunaniaith yn cael ei sefydlu fel endid(au) cyfreithiol annibynnol, e.e. cwmni cyfyngedig drwy warant neu sefydliad corfforedig elusennol[12]

Cynigwn rhai sylwadau ar y tri opsiwn isod:

[12] Er gwybodaeth, y term Saesneg cyfatebol yw *charitable incorporated institution (CIO).*

Uned wasanaeth – ni fyddai'r sefyllfa gyfreithiol yn newid o'r sefyllfa gyfredol ond byddai angen ystyried ymhle o fewn strwythurau adrannol y Cyngor y byddai Hunaniaith yn eistedd ar gyfer cynhyrchu'r budd a'r effaith mwyaf, i bwy y byddai'r uned wasanaeth yn gyfrifol, sut y byddai Hunaniaith yn atebol i aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd, sut y byddent yn derbyn cyfarwyddyd strategol a sut y byddent yn meithrin perthynas â'r cyhoedd yn gyffredinol. Byddai hefyd yn rhaid datrys y dryswch cyfredol ynghylch cyrchu cyllid atodol o ffynonellau ychwanegol at grant Llywodraeth Cymru.

Is-gwmni hyd-braich – byddai Hunaniaith a'i staff yn atebol i Fwrdd Cyfarwyddwyr a benodir gan y Cyngor. Byddai'n agored i ddatblygu fforymau strategol a fforymau rhanbarthol gwirfoddol i ennyn tryloywder a pherchnogaeth strategol ehangach.

Gellid cynnal y berthynas â'r Cyngor Sir drwy nifer o ddulliau:

- derbyn arian craidd neu gomisiynau gan y Cyngor Sir,
- derbyn cefnogaeth mewn da ar ffurf lleoliadau gwaith, a
- sicrhau cynrychiolaeth o fewn strwythurau perthnasol y Cyngor.

Byddai'r is-gwmni'n agored i wneud ceisiadau am gyllid prosiect o ffynonellau amrywiol, ymateb i gomisiynau a gweithredu mewn modd masnachol.

(Noder bod yr opsiwn hwn yn ddibynnol ar y graddau y mae'n arferiad ac yn ddymunol gan Gyngor Gwynedd i sefydlu is-gwmnïau o'r fath).

Endid annibynnol – o sefydlu Hunaniaith fel endid a fyddai'n annibynnol ar y Cyngor Sir, e.e. cwmni cyfyngedig trwy warant (a allai hefyd ymgeisio am statws elusennol) neu'n sefydliad corfforedig elusennol, byddai rheidrwydd penodi Bwrdd Cyfarwyddwyr annibynnol a fyddai'n gyfrifol am weinyddu'r cwmni (neu'r elusen) yn y modd priodol. Gellid sefydlu fforymau gwirfoddol rhanbarthol neu thematig a gellid cynnal perthynas â'r Cyngor Sir drwy nifer o ddulliau:

- sicrhau cynrychiolaeth o'r Cyngor Sir ar y Bwrdd Cyfarwyddwyr,
- derbyn cyllid grant neu gomisiynau gan y Cyngor Sir,
- derbyn cefnogaeth mewn da ar ffurf lleoliadau gwaith, a
- chydweithio fel partner allweddol i'r Cyngor Sir o fewn rhwydweithiau a strwythurau perthnasol.

Byddai'r endid hefyd yn agored i wneud ceisiadau am gyllid prosiect o ffynonellau amrywiol, ymateb i gomisiynau a gweithredu mewn modd masnachol.

Mae presenoldeb Menter Iaith Bangor fel menter iaith annibynnol o fewn ffiniau'r sir yn ychwanegu elfen o gymhlethdod i'r sefyllfa – fel y mae presenoldeb Nantlle 20/20, a ariennir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, o edrych ar y sefyllfa yn Sir Gaerfyrddin ni ddylai hyn fod yn achos rhwystr. Byddai modd ystyried sefydlu grwpiau gweithredol penodol i wasanaethu ardaloedd eraill Gwynedd – ar sail y bedair ardal Fforwm Ardal, er enghraifft. Byddai hynny'n medru dwysau perchnogaeth leol ar y weledigaeth a'r gweithgaredd, ymateb i anghenion lleol penodol a chaniatáu cydweithio rhwng y grwpiau a'r mentrau unigol ar themâu cyffredin. Gallai'r grwpiau hynny, maes o law, gael eu hymgorffori yn ôl y dymuniad lleol (neu beidio).

5.2.3 Manteision ac anfanteision

Cyflwynir gwybodaeth ynghylch manteision cyffredinol cwmnïau cyfyngedig trwy warant a manteision ac anfanteision cofrestru'r cwmni hwnnw fel elusen yn Atodiad B.

Yn fyr, fodd bynnag, y fantais bennaf o sefydlu cwmni cyfyngedig trwy warant yw creu endid cyfreithiol sy'n caniatáu i'r cwmni weithredu'n annibynnol a hunanreolus, gan ymateb yn hyblyg ac yn amserol i'w amgylchiadau. Yn allweddol, mae statws cwmni cyfyngedig yn amddiffyn cyfarwyddwyr unigol rhag ymrwymiadau ariannol a all ddeillio o golledion neu ddyledion y cwmni.

At hynny, mae ennill statws elusennol yn medru bod o fantais o ran delwedd gyhoeddus yr endid ac yn fantais wrth adeiladu perthynas adeiladol gyda sefydliadau eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol. Gall hefyd hwyluso mynediad i ffynonellau grant a chyllido sy'n gyfyngedig i elusennau cofrestredig. Fodd bynnag, ceir rhai anfanteision a chyfyngiadau posibl o gofrestru fel elusen, e.e. cyfyngiadau ar natur y gweithgareddau y medrir ymgymryd â nhw a gofynion adrodd ariannol mwy cymhleth a chaeth.

Er y byddai modd ystyried sefydlu sefydliad corfforedig elusennol, ymddengys bod y math yna o gorfforaeth yn fwy perthnasol i elusennau sy'n meddu ar eiddo ac sydd ag eiddo'n rhan ganolog o'u gweithgareddau. Nid yw, felly, yn addas i bwrpas yng nghyswllt Hunaniaith.

Yn y tabl isod ceisiwn amlinellu'r manteision ac anfanteision i'r tri opsiwn a gynigiwyd uchod o safbwynt y drafodaeth benodol hon.

Tabl 3: Manteision ac anfanteision y tri opsiwn

| Y model strwythurol | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Opsiwn 1**<br><br>Parhau yn uned gwasanaeth penodol o fewn strwythurau Cyngor Gwynedd. | **Atebolrwydd a pherchnogaeth**<br><br>Atebolrwydd democrataidd trwy strwythurau'r Cyngor (e.e. Grŵp Strategol Hunaniaith).<br><br>Sicrhau perthynas â strwythurau atebolrwydd eraill o ran y Gymraeg o fewn y Cyngor (e.e. y Pwyllgor Iaith). | **Atebolrwydd a pherchnogaeth**<br><br>Penderfyniadau ynghlwm â phrosesau biwrocrataidd y Cyngor.<br><br>Canfyddiad o Hunaniaith fel asiant i'r Cyngor yn medru cynhyrchu disgwyliadau afreal a chyfyngu'r gallu i ymwneud â chymunedau'n effeithiol. |
| | **Cyllid ac adnoddau eraill**<br><br>Derbyn cefnogaeth weinyddol o ran swyddfeydd a chyfraniad rheoli.<br><br>Cyfle i adolygu cyfleoedd i ddenu cyllid o ffynonellau incwm mewnol ac allanol. | **Cyllid ac adnoddau eraill**<br><br>Risg o gynnal y sefyllfa gyfredol a chyfyngu'r gyllideb i grant Llywodraeth Cymru ac adnoddau Cyngor Gwynedd.<br><br>Methu ymgeisio am arian atodol o ffynonellau elusennol na masnachol. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Sgôp a natur gweithgareddau**<br><br>Cyfle i gael eu lleoli o fewn adran sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gymuned.<br><br>Cyfleoedd i gydweithio'n fwy rhagweithiol gydag adrannau ac unedau gwasanaeth eraill o fewn Cyngor Gwynedd.<br><br>Cyfle i fanteision ar ffynonellau gwybodaeth mewnol y Cyngor. | Risg o gynnal y sefyllfa gyfredol a pheidio buddsoddi amser staff i ddenu incwm o ffynonellau atodol, bydded yn fewnol neu'n allanol.<br><br>Gorfod cystadlu am adnoddau prin o fewn ar awdurdod lleol.<br><br>**Sgôp a natur gweithgareddau**<br><br>Gweithgareddau wedi eu cyfyngu i amodau cynllun grant LlywodrCymruCymru.<br><br>Perygl o barhau'r ansicrwydd pwrpas cyfredol a drysu swyddogaethau.<br><br>Adnodd staff prin yn cael hi'n anodd darparu ar draws sir eang ac amrywiol eu hanghenion. |

| Y model strwythurol | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Opsiwn 2**<br><br>Cwmni hyd-braich ym mherchnogaeth Cyngor Gwynedd. | **Atebolrwydd a pherchnogaeth**<br><br>Cyfle i sefydlu trefn arweiniol mwy ymatebol i anghenion y gwaith.<br><br>Modd sicrhau cynrychiolaeth o fewn rhwydweithiau perthnasol o fewn y Cyngor Sir.<br><br>Modd sefydlu fforymau ymgynghorol gwirfoddol yn ôl y gofyn.<br><br>**Cyllid ac adnoddau eraill**<br><br>Modd cyflwyno ceisiadau am gyllid prosiect neu gyfalaf o ffynonellau amrywiol, ymateb i gomisiynau a gweithredu mewn modd masnachol yn annibynnol ar y Cyngor.<br><br>Modd derbyn arian craidd neu gomisiynau gan y Cyngor Sir.<br><br>Modd derbyn cefnogaeth mewn da ar ffurf lleoliadau gwaith gan y Cyngor Sir. | **Atebolrwydd a pherchnogaeth**<br><br>Dim perchnogaeth uniongyrchol gan gyrff nac unigolion y tu allan i'r Cyngor Sir.<br><br>Canfyddiad o Hunaniaith fel asiant i'r Cyngor yn parhau'n rhwystr posibl.<br><br>**Cyllid ac adnoddau eraill**<br><br>Angen sicrhau rheolaeth ac atebolrwydd ariannol annibynnol.<br><br>Gofynion gweinyddol ychwanegol o ran cyfrifyddiaeth a Thŷ'r Cwmnïau (ynghyd â'r Comisiwn Elusennau o sefydlu elusen).<br><br>Dim modd sefydlu statws elusennol.<br><br>Newidiadau posibl mewn amodau cyflogaeth i staff. |

| | | |
|---|---|---|
| | **Sgôp a natur gweithgareddau**<br><br>Byddai modd ehangu ar sgôp a natur y gweithgareddau o ganlyniad i ddenu ffynonellau incwm ychwanegol. | **Sgôp a natur gweithgareddau**<br><br>Dim anfanteision amlwg. |

| Y model strwythurol | Manteision | Anfanteision |
|---|---|---|
| **Opsiwn 3**<br><br>Sefydlu endid(au) annibynnol ar wahân i Gyngor Gwynedd. | **Atebolrwydd a pherchnogaeth**<br><br>Bwrdd Cyfarwyddwyr yn agored i ddenu aelodau yn unol â'r angen am ystod o sgiliau ac arbenigeddau penodol.<br><br>Annibyniaeth rhag y Cyngor Sir yn fwy tebygol o ennyn perchnogaeth ranbarthol a chymunedol ehangach.<br><br>Medru cyflwyno llais arbenigol annibynnol o fewn rhwydweithiau partneriaethol y Cyngor Sir ac mewn fforymau eraill.<br><br>Medru gweithredu fel partner cydradd â mentrau iaith eraill o fewn Mentrau iaith Cymru. | **Atebolrwydd a pherchnogaeth**<br><br>Angen sicrhau rheolaeth ac atebolrwydd ariannol annibynnol.<br><br>Gofynion gweinyddol ychwanegol o ran cyfrifyddiaeth a Thŷ'r Cwmnïau (ynghyd â'r Comisiwn Elusennau o sefydlu elusen).<br><br>Yr angen i fraenaru'r tir a sicrhau mesur o berchnogaeth leol ar y datblygiad cyn cychwyn. |
| | **Cyllid ac adnoddau eraill**<br><br>Modd cyflwyno ceisiadau am gyllid prosiect neu gyfalaf o ffynonellau amrywiol, ymateb i gomisiynau a gweithredu mewn modd masnachol.<br><br>Medru cofrestru fel elusen â bo hynny'n ddymunol. | **Cyllid ac adnoddau eraill**<br><br>Mwy agored i heriau ariannol o ganlyniad i newidiadau mewn polisi cyhoeddus a'r hinsawdd economaidd.<br><br>Newidiadau posibl mewn amodau cyflogaeth i staff. |
| | **Sgôp a natur gweithgareddau**<br><br>Byddai modd ehangu ar sgôp a natur y gweithgareddau o ganlyniad i ddenu ffynonellau incwm ychwanegol. | **Sgôp a natur gweithgareddau**<br><br>Dim anfanteision amlwg. |

Argymhellir y dylid ystyried sefydlu Hunaniaith yn gwmni cyfyngedig trwy warant a fyddai'n endid annibynnol ar Gyngor Gwynedd – opsiwn 3 uchod. Credir y byddai'r opsiwn hynny yn fwy tebygol o hwyluso:

- denu adnoddau ychwanegol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir,
- ymateb yn greadigol i gyfleoedd datblygu amrywiol,
- creu partneriaethau arwyddocaol gyda chyrff a mudiadau perthnasol, a
- rhoi llais a pherchnogaeth i gymunedau a rhwydweithiau diddordeb lleol.

At hynny, oherwydd y cyfyngiadau posibl ar elusennau cofrestredig, argymhellir oedi rhag cofrestru'r cwmni yn elusen yn unionsyth er mwyn pwyso a mesur goblygiadau hynny yn fanylach maes o law.

5.2.4 Strwythurau

(a) Rhanbartholi

Mae Gwynedd yn sir eang ac amrywiol ei daearyddiaeth a'i demograffeg. O'r herwydd mae mudiadau sy'n anelu at wasanaethu'r sir gyfan yn gorfod ystyried gweithredu ar sail ranbarthol. Cynigiwyd y tair ardal draddodiadol - Arfon, Dwyfor a Meirionnydd - fel un model gweithredol. Awgrymwyd hefyd y gellid ystyried yr wyth ardal llesiant neu pedair ardal y Fforymau Ardal (Ogwen, Gwyrfai, Dwyfor a Meirionnydd), fel unedau gweithredol ar gyfer Hunaniaith i'r dyfodol. O ystyried perthynas weithredol Hunaniaith â Menter Iaith Bangor credwn fod y pedair ardal Fforwm Ardal hynny'n cynnig strwythur pwrpasol - Bangor Ogwen, Seiont Gwyrfai, Dwyfor a Meirionnydd.

Pa bynnag ddewisiadau eraill a gymerir o ran statws Hunaniaith i'r dyfodol, awgrymir bod ystyriaeth yn cael ei roi i sefydlu Hunaniaith o'r newydd ar sail pedwar rhanbarth - Bangor Ogwen, Seiont Gwyrfai, Dwyfor a Meirionnydd - gan dynnu partneriaid lleol (yn unigolion, sefydliadau a grwpiau lleol) i ffurfio grwpiau ymgynghorol o fewn y pedair ardal.

Yn achos Bangor Ogwen, rhagwelir mai Menter Iaith Bangor fyddai cnewyllyn y grŵp ymgynghorol hwnnw, gyda chynrychiolaeth hefyd o bartneriaid amlwg yn Nyffryn Ogwen a'r ardaloedd i'r gorllewin o ddinas Bangor. Byddai Menter Iaith Bangor yn rhydd i weithredu mewn partneriaeth â Hunaniaith a phartneriaid eraill yng nghyswllt ardal Bangor Ogwen ynghyd â pharhau i drefnu gweithgareddau dan faner ei 'frand' ei hun yn ninas Bangor.

Mewn ardaloedd eraill byddai'r grwpiau ymgynghorol rhanbarthol hefyd angen meithrin perthynas gyda grwpiau a mudiadau lleol perthnasol, megis Nantlle 20/20, Cwmni Bro Ffestiniog, Gŵyl Fawr Dolgellau ac ati.

Argymhellir, felly, o sicrhau adnoddau cyfatebol, y dylid ailstrwythuro Hunaniaith ar sail pedwar rhanbarth er mwyn mwyhau ymwneud unigolion, grwpiau a sefydliadau lleol yng ngwaith y fenter.

(b) Atebolrwydd

Yn y cyfnod hwn o newid mae Hunaniaith angen yr arweiniad a'r gefnogaeth gryfaf posibl. Yn ogystal ag adnabyddiaeth drwyadl o sefyllfa ieithyddol Gwynedd, mae angen i Hunaniaith fanteisio ar yr ystod ehangaf posib o brofiadau ac arbenigeddau. Mae sicrhau mewnbwn o ran dealltwriaeth gadarn o gynllunio iaith yn hanfod amlwg i'r grŵp arweiniol, ynghyd â dealltwriaeth o'r sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector. Byddai sicrhau profiad o gynllunio'n strategol er mwyn creu newid hefyd yn fanteisiol.

At hynny, o ddewis sefydlu Hunaniaith fel endid annibynnol byddai hefyd angen ystyried ehangu'r set o sgiliau dymunol i gynnwys agweddau megis profiad o ddenu grantiau, rheoli cyllid a hyrwyddo mentergarwch cymunedol.

Awgrymir hefyd y gellid ystyried sefydlu grŵp ymgynghorol sirol o blith partneriaid allweddol a chynrychiolwyr y rhanbarthau. Byddai'r grŵp yn cyfarfod yn achlysurol i osod cyfeiriad strategol ar gyfer y fenter ac amlygu posibiliadau datblygu.

| |
|---|
| Argymhellir, felly, y dylid adolygu aelodaeth o grŵp arweiniol Hunaniaith yn unol â'r statws corfforaethol a fabwysiedir.<br><br>At hynny, dylid ystyried ffurfio grŵp ymgynghorol sirol i sicrhau ymwneud effeithiol â phartneriaid allweddol ar draws y sir. |

(c) Staffio

Amlinellwyd strwythur staffio cyfredol Hunaniaith yn adran 3.2.1 uchod. Ar hyn o bryd, yn atodol at y swyddogaeth reolaethol 30% a ariannir gan Gyngor Gwynedd, mae grant Llywodraeth Cymru (o tua £167,000 y flwyddyn) yn cynnal y swyddi canlynol:

- Swyddog Datblygu – sy'n canolbwyntio ar Ddwyfor yn ogystal â dal dyletswyddau sirol.
- Swyddog Datblygu – sy'n canolbwyntio ar Feirionnydd yn ogystal â dal dyletswyddau sirol.
- Swyddog Datblygu – sydd wedi ei neilltuo'n benodol i Fenter Iaith Bangor.
- Cynorthwyydd Datblygu – sydd wedi ei neilltuo'n benodol i Fenter Iaith Bangor.

Er ei fod yn briodol i Hunaniaith a'r Cyngor herio eu hunain ynghylch sut orau i ddefnyddio'r adnodd presennol, mae newidiadau yn y strwythur staffio cyfredol, mewn gwirionedd, wedi eu cyfyngu gan swm y grant, cyfarwyddyd y cyllidwyr i gynnal swydd benodol ym Mangor a rolau hanesyddol y swyddi cyfredol ynghyd â'u graddfeydd cyflog. Heb adnoddau ychwanegol sylweddol mae'n anodd gweld sut y gellid ailstrwythuro Hunaniaith o fewn y cyfyngiadau ariannol presennol.

O edrych ar strwythurau staffio mentrau iaith eraill yn y gogledd a'r gorllewin gellid tybio, o sefydlu Hunaniaith yn fenter iaith annibynnol, y gallai'r strwythur canlynol fod yn dempled y gellid anelu ato yn y tymor byr:

- Prif Weithredwr
- Swyddog Cyllid a Gweinyddiaeth
- Swyddog Ymchwil ac Ymgysylltu
- Swyddog Datblygu Bangor Ogwen
- Swyddog Datblygu Seiont Gwyrfai
- Swyddog Datblygu Dwyfor

- Swyddog Datblygu Meirion

At hynny, gellid rhagweld denu adnoddau ar gyfer sefydlu swyddogion thematig yn unol â blaenoriaethau lleol, e.e.

- Swyddog Prosiectau Amgylcheddol (ar y cyd â Pharc Cenedlaethol Eryri, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill),
- Swyddog yr Economi Sylfaenol (ar y cyd â phartneriaid yn y maes a'r rhaglen Arfor),
- Swyddog Plant ac Ieuenctid (trwy gronfeydd elusennol),
- Swyddog Prosiectau Creadigol (ar y cyd â phartneriaid cenedlaethol a lleol), a
- gweithwyr prosiect achlysurol mewn cymunedau penodol.

Mae'r math yma o strwythur staffio yn gwbl bosibl i Hunaniaith o gael y gallu i ddenu adnoddau, gweithredu'n fentrus a chreu partneriaethau creadigol. Fodd bynnag, i gynnal y fath yna o gorff staff byddai angen denu dwywaith a theirgwaith yr adnodd cyfredol a ddaw o du Llywodraeth Cymru mewn grantiau a ffynonellau incwm ychwanegol.

Yr allwedd i'r math yna o dwf, heblaw am gefnogaeth a chydweithrediad cadarn y Cyngor, yw apwyntio Prif Weithredwr mentrus a dychmygus a allai osod arweiniad clir ar gyfer y fenter, ffurfio a chynnal partneriaethau arwyddocaol, denu cyllid a phrosiectau newydd, ysbrydoli a chefnogi staff, rhoi adnoddau ar waith yn y ffyrdd mwyaf effeithiol ac effeithlon a sicrhau bod y fenter yn ymwneud mewn modd ystyrlon gyda chymunedau a rhwydweithiau diddordeb ar draws Gwynedd. Yn gyfredol, oherwydd diffyg adnoddau, ymddengys nad oes modd i dîm staff Hunaniaith gyflawni'r swyddogaethau arweiniol yma mewn modd unol a bwriadus.

At hynny, byddai penodi Swyddog Ymchwil ac Ymgysylltu yn ychwanegiad gwerthfawr tuag at wireddu'r swyddogaeth olaf.

Gwelir diagram o strwythur staffio a strwythur rheolaethol posibl ar gyfer Hunaniaith yn Atodiad C.

| |
|---|
| Argymhellir, felly, ei bod hi'n flaenoriaeth i Hunaniaith geisio sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn medru cynyddu'r corff staff ac ehangu ei weithgareddau a'i effaith ar draws Gwynedd gyfan. |

# 6.0 Casgliadau ac argymhellion

## 6.1 Casgliadau

Y gofyniad gwreiddiol i IAITH wrth ymgymryd â'r adolygiad hwn oedd:

- *"Ystyried beth yw'r opsiynau posib ar gyfer strwythur Menter Iaith yng Ngwynedd i'r dyfodol...*
- *Ystyried lle dylid targedu ymyrraeth/adnoddau prin gan Fenter Iaith yng Ngwynedd er mwyn cael yr effaith mwyaf... o ystyried bod sefyllfa y Gymraeg yn amrywio ar draws y sir...*
- *Ystyried beth ddylai'r Fenter Iaith ei wneud er mwyn cael yr effaith mwyaf ar y nifer o siaradwyr Cymraeg o fewn yr adnoddau sydd ar gael, tra hefyd yn sicrhau nad yw'n llesteirio gwaith cyrff eraill".*

Yng nghwrs yr ymarferiad rydym wedi amlygu nifer o faterion a chwestiynau allweddol eraill sy'n destun consyrn i garedigion a budd-ddeiliaid Hunaniaith. Rhestrir y materion a'r cwestiynau allweddol hynny yn adrannau 4.0 a 5.0 yr adroddiad. Fodd bynnag, o ran y cwestiynau penodol o'r brîff a ddyfynnir uchod, awgrymwn y dylid ystyried y materion canlynol fel blaenoriaeth:

- O ran strwythur Hunaniaith i'r dyfodol, yn gyntaf, bod angen i Gyngor Gwynedd ddiffinio, amlygu a bod yn cwbl glir a thryloyw ynghylch swyddogaethau craidd Hunaniaith o fewn Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd.

- Yn ail, bod angen i'r Cyngor ystyried pa gerbyd cyfansoddiadol sy'n briodol ar gyfer y swyddogaeth a'r gwaith a ddyrannir i Hunaniaith o fewn Cynllun Hybu'r Gymraeg y Cyngor.

- Yn drydydd, bod angen i'r Cyngor ystyried i ba raddau mae angen rhanbartholi'r gwaith a ymgymerir gan Hunaniaith, e.e. ar sail y pedair ardal Fforwm Ardal.

- Bod angen hefyd i Gyngor Gwynedd, o ystyried y sefyllfa hanesyddol a chyfredol, ystyried pa gerbyd cyfansoddiadol sydd fwyaf tebygol o fwyhau'r ffynonellau incwm ar gyfer cynyddu ac ehangu gwaith Hunaniaith.

- At hynny, bod angen ystyried pa gerbyd cyfansoddiadol sydd mwyaf tebygol o ennyn perchnogaeth ranbarthol a lleol ymysg unigolion, grwpiau a rhwydweithiau sydd â diddordeb yn nod ac amcanion Hunaniaith.

- Yn y cyswllt hynny, mae angen eglurhad cyffredinol ynghylch y berthynas sydd i'w datblygu rhwng Hunaniaith a Menter Iaith Bangor, yn benodol, ynghyd â'r berthynas rhwng Hunaniaith a mudiadau, grwpiau a rhwydweithiau eraill sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir.

- At hynny, o ystyried yr amrywiaeth ddaearyddol a demograffeg o fewn y sir, bod angen seilio unrhyw ymyraethau ar ymarferiadau ymchwil ac ymgynghori cadarn, gan seilio dadansoddiadau ar egwyddorion ac arferion polisi a chynllunio iaith cydnabyddedig.

- O ran yr enw 'Hunaniaith', fel nodwyd eisoes, cafwyd rhai sylwadau negyddol yn ei gylch ond credwn mai eilradd fyddai'r mater o ailenwi neu ail-frandio Hunaniaith i'r cwestiynau strwythurol ac ariannol a nodir uchod.

## 6.2 Argymhellion

Gan gydnabod mai cyfrifoldeb eraill yw dod i gasgliadau a phenderfyniadau ynghylch dyfodol Hunaniaith, ar sail y dystiolaeth uchod, mae barn gryno awduron yr adroddiad hwn fel a ganlyn:

6.2.1 Dylid sicrhau bod yr uned bolisi iaith o fewn o fewn Cyngor Gwynedd yn cael ei ddatblygu ymhellach er mwyn cynnal a datblygu swyddogaethau strategol a phartneriaethol y Cyngor yng nghyswllt y Gymraeg, ynghyd â gweithredu swyddogaeth ysgogol a heriol o fewn y Cyngor, ei adrannau a'i wasanaethau.

6.2.2 Dylid sefydlu eglurdeb a chonsensws cyffredin mai swyddogaeth Hunaniaith, fel menter iaith sirol, yw gweithredu'n ysgogol a grymusol ar y cyd â chymunedau a rhwydweithiau lleol, ynghyd ag ysgogi a gweithredu prosiectau uniongyrchol a chynaliadwy ar lawr gwlad.

6.2.3 Dylid ystyried sefydlu Hunaniaith yn gwmni cyfyngedig trwy warant a fyddai'n endid annibynnol ar Gyngor Gwynedd (opsiwn 3 uchod). O sefydlu Hunaniaith yn fenter iaith annibynnol credir y byddai'n fwy tebygol:

- o ddenu adnoddau ychwanegol er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir,
- o fedru ymateb yn greadigol i gyfleoedd datblygu amrywiol,
- o greu partneriaethau arwyddocaol gyda chyrff a mudiadau perthnasol, ac
- o roi llais a pherchnogaeth i gymunedau a rhwydweithiau diddordeb lleol.

Er hynny, oherwydd y cyfyngiadau posibl ar elusennau cofrestredig, argymhellir oedi rhag cofrestru'r cwmni yn elusen yn unionsyth er mwyn pwyso a mesur goblygiadau hynny yn fanylach maes o law.

6.2.4 O sicrhau adnoddau cyfatebol, dylid ailstrwythuro Hunaniaith ar sail pedwar rhanbarth er mwyn mwyhau ymwneud unigolion, grwpiau a sefydliadau lleol yng ngwaith y fenter.

6.2.5 Dylid adolygu aelodaeth grŵp arweiniol Hunaniaith yn unol â'r statws corfforaethol a fabwysiedir. At hynny, dylid ystyried ffurfio grŵp ymgynghorol sirol i sicrhau ymgysylltu effeithiol â phartneriaid allweddol ar draws y sir.

6.2.6 Y flaenoriaeth bennaf i Hunaniaith, heb unrhyw os, yw ceisio sicrhau adnoddau ychwanegol er mwyn medru cynyddu'r corff staff a thrwy hynny ehangu ei weithgareddau a chynyddu ei effaith ar hyfywedd y Gymraeg ar draws Gwynedd gyfan. Credir y byddai penodi Prif Weithredwr anturus, cefnogaeth weinyddol effeithiol, Swyddog Ymchwil ac Ymgysylltu craff, ynghyd â thîm o swyddogion rhanbarthol a swyddogion thematig yn meddu ar y potensial i gyfrannu'n helaeth at hyfywedd y Gymraeg yng nghymunedau Gwynedd.

## 6.3 Goblygiadau

Hyderwn, felly, bod digon o wybodaeth yn yr adroddiad hwn i ysgogi trafodaeth wybodus ymhlith y Cyngor a budd-ddeiliaid eraill ynghylch sefyllfa gyfredol Hunaniaith ac i ystyried dewisiadau ar ei gyfer i'r dyfodol.

Yn amlwg, bydd goblygiadau i'r penderfyniadau a wneir o ganlyniad i'r drafodaeth honno, e.e.:

- yr angen i sefydlu gweledigaeth glir a llwybr gweithredu eglur;

- yr angen i ysgogi perchnogaeth ranbarthol a lleol a'i ffurfioli mewn strwythur perthnasol;

- yr angen i sicrhau cefnogaeth a chydweithrediad cyllidwyr, partneriaid a budd-ddeiliaid eraill;

- yr angen i ffurfio consensws gwleidyddol o du cynghorwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol,

- yr angen i sicrhau trefniadau staffio, trosglwyddiadau neu ad-drefniannau staffio llyfn a theg, ynghyd â chysondeb o ran amodau cyflogaeth.

At hynny, mae goblygiadau penodol i Gyngor Gwynedd eu hystyried:

- yr angen i ddatblygu perthynas adeiladol rhwng yr uned polisi iaith a Hunaniaith ar ei newydd wedd, gan gytuno ar swyddogaethau Hunaniaith a'r modd y gall gyfrannu at nodau Cynllun Hybu'r Gymraeg yng Ngwynedd;
- y graddau y bydd Hunaniaith angen cefnogaeth gan Gyngor Gwynedd wrth gael ei sefydlu – o ran arweiniad, gweithredu, cyllido a chefnogaeth mewn da;
- y graddau y gall Hunaniaith ychwanegu gwerth i weithgareddau'r Cyngor o ran hyfywedd y Gymraeg ac agweddau cysylltiol eraill – datblygu cymunedol, yr economi sylfaenol, addysg yn y gymuned, yr amgylchedd ac ati.

Yng ngoleuni'r goblygiadau hynny awgrymwn y bydd angen i'r Cyngor a'i bartneriaid, yn enwedig Llywodraeth Cymru, gynllunio cyfnod pontio ar y cyd er mwyn gwireddu a chyllido unrhyw newidiadau.

**Gareth Ioan a Siwan Tomos**
**IAITH: y ganolfan gynllunio iaith**
**4 Medi 2020**

# Atodiad A: Cwestiynau ymchwil allweddol

Defnyddiwyd y fframwaith isod i gwestiynau ymchwil allweddol i arwain ein cyfweliadau lled-strwythurol gyda'r cyfweleion.

### 1. Nod a chyflawniadau

Yn eich barn chi, beth yw diben pennaf *Hunaniaith*?

Ydy gweledigaeth *Hunaniaith* wedi newid dros y 10 mlynedd ddiwethaf? Os ydy – sut a pham?

Beth, yn eich tyb chi, fu llwyddiannau pennaf *Hunaniaith* hyd yn hyn?
(Nodwch enghreifftiau a'r rhesymau dros y llwyddiant).

O edrych yn ôl, pa agweddau o weithredu *Hunaniaith* allasai fod wedi eu cryfhau?
(Beth oedd y rhwystrau?)

### 2. Sgôp gweithredol *Hunaniaith*

Sut carech chi weld Hunaniaith yn datblygu i'r dyfodol?

- I ba raddau dylai *Hunaniaith* ganolbwyntio ar weithredu'n strategol ar lefel sirol mewn partneriaeth â chyrff ac asiantaethau eraill?
- I ba raddau dylai *Hunaniaith* ganolbwyntio ar ysgogi a hwyluso unigolion a grwpiau cymunedol i weithredu o blaid y Gymraeg ar lawr gwlad?
- I ba raddau dylai *Hunaniaith* ganolbwyntio ar ddarparu gweithgareddau cyfrwng Cymraeg yn uniongyrchol i unigolion a rhwydweithiau lleol?

A ddylai *Hunaniaith* weithio mewn ardaloedd sy'n wynebu heriau ieithyddol neu mewn ardaloedd lle mae'r Gymraeg ar ei gryfaf?

Os yw hynny'n ddymunol, pa ardaloedd ddylai dderbyn sylw fel blaenoriaeth?

### 3. Blaenoriaethau gweithredol

Mae blaenoriaethau Hunaniaith yn cael ei arwain gan yr amodau grant, yn ddiweddar blaenoriaethau *Hunaniaith* fu:

- dylanwadu ar iaith y teulu,
- cryfhau'r cyswllt rhwng ysgolion a'r gymuned,
- cynnig gweithgareddau i'r grŵp oedran 16-24 oed, a
- datblygu dealltwriaeth o arferion ieithyddol pobl.

I ba raddau y credwch fod y blaenoriaethau yma'n briodol?

I ba raddau y credwch fod y gweithredu ar y blaenoriaethau hyn yn llwyddiannus?
(Nodwch enghreifftiau a'r rhesymau dros y llwyddiant).

Pa weithgareddau dybiwch chi ddylai fod yn flaenoriaeth i *Hunaniaith* i'r dyfodol?

**4. Menter Iaith Bangor**

Neilltuir tua 30% o gyllideb *Hunaniaith,* dan amod y grant, ar gyfer Menter Iaith Bangor: i ba raddau y credwch fod hyn yn briodol?

Pa berthynas ddylai fod rhwng Menter Iaith Bangor a *Hunaniaith* i'r dyfodol?

**5. Atebolrwydd, llywodraethiant a statws**

Ers ei sefydlu mae *Hunaniaith* wedi gweithredu fel prosiect penodol o fewn strwythurau rheoli Cyngor Gwynedd:

I ba raddau mae'r trefniant hwnnw wedi bod yn effeithiol o ran:

(a) caniatáu i *Hunaniaith* gyflawni ei nod a'i amcanion?
(b) caniatáu i *Hunaniaith* ymateb yn effeithiol i'r gofynion cynllunio iaith o fewn y sir?
(c) sicrhau bod gan *Hunaniaith* adnoddau digonol i gyflawni'r dibenion a'r amcanion hynny?
(d) sicrhau bod *Hunaniaith* yn gweithredu'n gydlynus fel rhan o arfogaeth Cyngor Gwynedd o blaid y Gymraeg?

Beth yw manteision y trefniannau presennol?

Beth yw anfanteision y trefniannau presennol ?

Ydy'r trefniadau atebolrwydd a llywio wedi bod yn effeithiol yng nghyswllt *Hunaniaith*?
A sut gellid eu cryfhau i'r dyfodol?

Ydy'r trefniadau cefnogi ac arolygu wedi bod yn effeithiol yng nghyswllt *Hunaniaith*?
A sut gellid eu cryfhau i'r dyfodol?

O edrych i'r dyfodol, pa fath o statws dybiech chi fyddai'n caniatáu i *Hunaniaith* weithredu ar ei fwyaf effeithiol:

a) aros fel prosiect o fewn y Cyngor (prosiect gweithredol neu uned gomisiynu),
b) bodoli fel endid hyd braich,
c) fel endid annibynnol yn y trydydd sector, neu
d) unrhyw ddatrysiad arall?

Beth fyddai manteision y trefniant hwnnw?

## 6. Adnoddau

Mae adnoddau Hunaniaith yn gymharol brin ac yn llai nag â fu:

Oes gyda chi awgrym ynghylch sut allai *Hunaniaith* gynyddu ei adnoddau (cyllideb a staff)?

Sut gellid defnyddio’r adnoddau presennol mewn mod arall?

## 7. Unrhyw fater arall

Oes unrhyw fater arall y carech chi wneud sylw yn ei gylch ynglŷn â dyfodol *Hunaniaith*?

# Atodiad B:

# Manteision ac anfanteision o fod yn (a) cwmni cyfyngedig trwy warant a (b) yn elusen gofrestredig.

## 1. Manteision o fod yn gwmni cyfyngedig trwy warant

Manteision sefydlu cwmni cyfyngedig trwy warant:

1. Mae atebolrwydd ariannol cyfarwyddwyr y cwmni, petai'r cwmni yn mynd i ddyled, wedi ei gyfyngu, e.e. i £1, gan warchod unigolion rhag cael eu herlyn am ddyledion y cwnni – a chymryd na fu unrhyw achos o dwyll.

2. Cwmni cyfyngedig yn endid cyfreithiol ar wahân ac annibynnol ar ei gyfarwyddwyr, perchnogion neu staff. Mae hyn yn amddiffyniad i'r unigolion ac yn golygu bod y cwmni'n medru parhau y tu hwnt i ymwneud unigolion penodol.

3. Mae unrhyw elw a gynhyrchir gan y cwmni i'w ddefnyddio er budd parhad y cwmni – yn hytrach nag er budd cyfranddalwyr.

4. Statws annibynnol y cwmni yn hwyluso penderfyniadau busnes buan a phrydlon.

5. Statws annibynnol y cwmni yn hwyluso perthynas fusnes a chyfreithiol â chwmnïau a sefydliadau eraill.

6. Statws annibynnol y cwmni yn hwyluso trefniadau ariannol gyda banciau a sefydliadau ariannol eraill.

7. Mae sefydlu cwmni cyfyngedig a'i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau yn amddiffyn ei enw mewn cyfraith.

8. Rhai manteision treth posibl ond cyfyngedig.

Nid oes anfanteision fel y cyfryw, heblaw'r anghenion arferol i gadw cyfrifon blynyddol a'u cyflwyno mewn modd cymeradwy i Dŷ'r Cwmnïau mewn da bryd; ynghyd â gweithredu o fewn cyfyngiadau memorandwm ac erthyglau cymdeithasid y cwmni.

## 2. Manteision ac anfanteision o fod yn elusen

Manteision o gofrestru cwmni cyfyngedig trwy warant yn elusen:

1. Statws elusennol yn fantais o ran delwedd ac wrth adeiladu perthynas adeiladol gyda sefydliadau eraill a'r cyhoedd yn gyffredinol.

2. Mynediad i ffynonellau grant a chyllido sy'n gyfyngedig i elusennau.

3. Dylid defnyddio asedau'r elusen at ddibenion yr elusen yn unig.

4. Ceir arbedion treth posibl o fod yn elusen:

    a. gostyngiadau o hyd at 80% neu 100% ar draeth annomestig awdurdodau lleol,
    b. mae trothwy taliadau treth gorfforaethol yn uwch nag ar gyfer cwmnïau cyffredin,
    c. rhoddion i elusennau'n medru denu rhodd gymorth gan Lywodraeth y DG,
    d. rhoddion wedi eu heithrio rhag treth etifeddiaeth,
    e. rhai manteision posibl o ran codi TAW.

Mae'r anfanteision yn cynnwys:

1. Yr angen i gyfyngu gweithgareddau i'r dibenion elusennol a nodwyd yn y cyfansoddiad.

2. Cyfyngiadau ar weithgareddau gwleidyddol ac ymgyrchu.

3. Gwaharddiad ar godi cyllid drwy gyfranddaliadau.

4. Gofynion adrodd ar weithgareddau ariannol mwy caeth a chymhleth na chwmnïau nad sy'n elusennau.

5. Cyfyngiadau ar gyfarwyddwyr o ran derbyn taliadau a'r angen iddynt ddatgan unrhyw wrthdaro mewn buddiannau.

**Ffynonellau:**

https://companieshouse.blog.gov.uk/2018/05/15/what-does-it-mean-to-be-a-limited-company/

https://www.gov.uk/limited-company-formation

https://wcva.cymru/wp-content/uploads/2020/01/WCVA-Faith-and-Hope-Dont-Run-Charities.pdf

https://knowhow.ncvo.org.uk/setting-up/charitable-status/pros_and_cons_of_becoming_a_charity

# Atodiad C:

## Strwythur posibl ar gyfer Hunaniaith i'r dyfodol

